RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
83/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
16/12/2021

# Gwerthusiad o'r Haf o Hwyl

© Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-80391-472-5

Teitl: Gwerthusiad o'r Haf o Hwyl

Awduron: Valdeep Gill, Erica Bertolotto, Helen Bickley, Natasha Burnley, Gabriela Freitas a Katharine Mckenna

Adroddiad Ymchwil Llawn: Gill, V., Bertolotto, E., Bickley, H., Burnley, N., Freitas, G., Mckenna, K. (2021). Gwerthusiad o'r Haf o Hwyl. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 83/2021.

Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthusiad-haf-o-hwyl

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Faye Gracey
Adran Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: cyfleoeddchwarae@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau....................................................................................................2
Rhestr o ffigurau ....................................................................................................2
Cydnabyddiaeth ....................................................................................................3
Rhestr termau ....................................................................................................4
1. Cyflwyniad ....................................................................................................10
2. Methodoleg ....................................................................................................9
3. Dyluniad y rhaglen....................................................................................................13
4. Cynllunio a chydgysylltu rhwng awdurdodau lleol ....................................................................................................18
5. Cyflwyniad y rhaglen ....................................................................................................27
6. Profiadau plant a phobl ifanc....................................................................................................33
7. Deilliannau a manteision y rhaglen....................................................................................................38
8. Argymhellion cyfranogwyr ....................................................................................................44
9. Casgliadau ....................................................................................................48
Adran gyfeiriadau....................................................................................................51
Atodiad A Model rhesymeg....................................................................................................51
Atodiad B Offer cywain data....................................................................................................52

**Rhestr o dablau**

Tabl 1: Braslun o'r adroddiad ....................................................................................... 8
Tabl 2: Dulliau a sampl a gyflawnwyd ............................................................................ 9

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 1:Model rhaglenni HoH ALlau ............................................................................ 20
Ffigur 2: Enghreifftiau o grwpiau wedi'u targedu gan HoH yr ALlau ..................................... 21
Ffigur 3: Plant a phobl ifanc yn mynychu gweithgaredd HoH, fesul grŵp oedran ................ 27
Ffigur 4: Defnydd o gyllid HoH, gan ddarparwyr ................................................................... 29
Ffigur 5: Mathau o ddarpariaeth, gan ddarparwyr ................................................................. 30
Ffigur 6: Lleoliadau cyflwyno, gan ddarparwyr ...................................................................... 31
Ffigur 7: Ysgogiadau plant a phobl ifanc i fynychu HoH........................................................ 33
Ffigur 8: Gweithgareddau y cymerodd plant a phobl ifanc ran ynddynt, fesul math ............. 35

## Cydnabyddiaeth

Hoffai tîm ymchwil Ecorys ddiolch i Faye Gracey a Kirsten Geary yn Llywodraeth Cymru am eu harweiniad trwy gydol y gwerthusiad.

Rydym hefyd yn diolch i'r holl uwch randdeiliaid, arweinwyr Haf o Hwyl awdurdodau lleol, darparwyr, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr a roddodd yn garedig o'u hamser i gefnogi'r gwerthusiad a chymryd rhan ynddo. Hebddynt, ni fuasai modd cynnal y gwerthusiad hwn.

Rydym hefyd yn diolch i dîm cyfan Ecorys a gefnogodd ac a gyflwynodd weithgareddau gwerthuso: Erica Bertolotto, Helen Bickley, Natasha Burnley, Gabriela Freitas, Lilly Monk, Valdeep Gill, Johnny Lillis, Ionela Bulceag, Angus Elsby, Ieva Mais a Martin Manuch. Cefnogodd Jane Nicholas, Cydymaith Ecorys, gyflwyno'r gwerthusiad ac arwain gweithgareddau Cymraeg. Darparodd Korina Cox drosolwg a chroesgyfeirio i'r gwerthusiad o raglen Gweithgareddau a Bwyd Gwyliau yr Adran Addysg. Goruchwyliodd Katharine Mckenna gyflwyniad y gwerthusiad, gan sicrhau ansawdd drwyddi draw. Diolchwn hefyd i David Symons am gyfieithu’r holl offerynnau ymchwil a’r adroddiad terfynol i’r Gymraeg.

## Rhestr termau

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| PPI | Plant a phobl ifanc |
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| ALl | Awdurdod lleol |
| GR | Gwybodaeth reoli |
| RhGGH | Rhaglen Gwella Gwyliau’r Haf |
| HoH | Haf o Hwyl |

# Cyrhaeddiad a deilliannau **Haf o Hwyl 2021**

## Cymerodd **dros 67,500** o blant a phobl ifanc ran ar draws Cymru

**8%** yn 0-4 blwydd oed
**85%** yn 5-15 oed
**7%** yn 16-25 oed



**9%** yn dweud eu bod yn Ddu, Asiaidd neu o leiafrif ethnig
**5%** ag anghenion dysgu ychwanegol
**3%** ag anabledd


**11%** o sesiynau wedi'u cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg
**43%** drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg (dwyieithog)
**46%** drwy gyfrwng y Saesneg






## Dywedodd **99%** o blant a phobl ifanc eu bod wedi cael **hwyl**

Adroddodd plant a phobl ifanc amrywiaeth o fuddion o gymryd rhan:




Brig: Sylfaen: 409 o ddychweliadau gan ddarparwyr, Ffynhonnell: GR.

Siart: Sylfaen: 864-884, Ffynhonnell: Arolwg cyfranogwyr.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ar 16 Mehefin 2021, lansiodd Llywodraeth Cymru raglen gwerth £5 miliwn, o’r enw Haf o Hwyl, i gefnogi plant a phobl ifanc oed 0-25 i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol er mwyn adfer sgiliau cymdeithasol ac emosiynol yn y Gymraeg a’r Saesneg. Dyfarnwyd y gronfa i awdurdodau lleol (ALl) i ddarparu mynediad i weithgareddau er hybu lles cymdeithasol, emosiynol, corfforol a meddyliol pob plentyn a pherson ifanc. Yn ei dro, mae hyn yn rhan annatod o'u cefnogi i ymgysylltu eto â dysgu ac addysg, gan alluogi pob plentyn a pherson ifanc i gyrraedd eu llawn botensial ac yn greiddiol i ymadfer yn sgil pandemig COVID-19. Cyflwynwyd y rhaglen rhwng 1 Gorffennaf a 31 Medi 2021.

**Cefndir**

1.2 Rhoddwyd cyfnod clo cenedlaethol ar waith i atal ymlediad COVID-19 ym mis Mawrth 2020; gyda phob gwasanaeth ond y rhai hanfodol yn cael ei orfodi i gau drysau. Roedd hyn yn cynnwys canolfannau chwarae, cyfleusterau hamdden, mannau cymunedol a chanolfannau chwaraeon. Roedd ysgolion yn gweithredu'n wahanol ac roedd presenoldeb disgyblion yn gyfyngedig. Roedd yn bosib i ysgolion ddarparu dysgu o bell. Yn bwysig, cafodd mannau, a fyddai fel arfer wedi rhoi mynediad diogel i blant a phobl ifanc i weithgareddau cyfoethogi a chyfleoedd addysgol, eu cau'n ysbeidiol drwy gydol y 12 mis canlynol oherwydd y cyfyngiadau newidiol. Mae corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar effaith y cyfyngiadau hyn ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys ar gymdeithasu, cyfathrebu, iechyd emosiynol a meddyliol, lefelau isel o weithgarwch corfforol a mwy o ymddygiad eisteddog (Comisiynydd Plant Cymru, 2020).

1.3 Er bod pob plentyn wedi cael ei effeithio, mae'r pandemig a'r cyfyngiadau wedi cael effaith benodol ar y rhai a oedd eisoes dan anfantais. Mae plant o deuluoedd incwm isel yn fwy tebygol o brofi diffyg gweithgarwch corfforol ac unigedd, gyda'u rhieni'n llai abl i fforddio gweithgareddau cyfoethogi (Ymddiriedolaeth Sutton, 2014; Cullinane a Montacute, 2017).

1.4 Roedd Llywodraeth Cymru am gefnogi plant drwy ddarparu'r lle a'r amser ar gyfer chwarae yn ystod haf 2021 drwy:

- gefnogi hwyl a'r cyfle i fynegi eu hunain drwy chwarae
- mentrau rhyngweithiol, creadigol a chwarae yn y gymuned i bawb
- darparu cyfleoedd i chwarae gyda ffrindiau a chyfoedion
- creu lle a chyfleoedd am chwarae rhydd.

1.5 Rhoddodd yr HoH gyfle i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru, rhwng 0 a 25 oed gymryd rhan mewn cyfleoedd hygyrch am ddim i chwarae yn ogystal â darpariaeth gofal plant a reoleiddir (nid yn lle). Cefnogwyd gweithgareddau hamdden, adloniant, chwaraeon a diwylliannol gan gynnwys y celfyddydau a gweithgareddau awyr agored eraill. Ystyrir bod mynediad i weithgareddau fel y rhain yn hanfodol wrth ymadfer yn sgil COVID-19 i gefnogi lles cymdeithasol, emosiynol, corfforol a meddyliol pob plentyn a pherson ifanc. Yn ei dro, mae hyn yn rhan annatod o'u cefnogi i ymgysylltu eto â dysgu ac addysg. Nodir yr uchelgeisiau hyn yn y rhaglen Adnewyddu a Diwygio[1], ac maent yn ceisio cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i gyrraedd eu llawn botensial.

### Amcanion y gwerthusiad

1.6 Nod y gwerthusiad hwn oedd asesu rhaglen HoH 2021, sut y cafodd ei gweithredu'n ymarferol, canlyniadau canfyddedig i blant a phobl ifanc yn ogystal â dysgu a fydd yn cyfeirio polisi ac arfer yn y dyfodol. Yn benodol, yr amcanion oedd:

- Mapio sut y cyflwynodd ALlau yr HoH ac amrywiadau ar draws eu modelau, gan asesu'r hyn a gyflwynwyd yn ogystal â'r cynnig busnes-fel-arfer.
- Deall prosesau gweinyddu a gweithredol, gan gynnwys yr hyn a weithiodd yn dda a meysydd i'w gwella. Deall sut y bu ALlau a’u partneriaid cyflwyno’n ystyried cyfle cyfartal, hygyrchedd a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Deall beth oedd yn galluogi ac yn ysgogi plant a phobl ifanc i fynychu.
- Asesu barn rhanddeiliaid ar ddeilliannau a manteision y rhaglen.
- Nodi arfer da a chreu syniadau i wella'r ddarpariaeth gwyliau yn ystod gwyliau'r ysgol yng ngweddill blwyddyn ariannol 2021/22 a thu hwnt.

[1] Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr [HTML] | LLYW. CYMRU

1.7 Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â phob un o'r rhain yn y penodau sy'n dilyn.

**Tabl 1: Braslun o'r adroddiad**

| **Pennod** | **Cynnwys** |
|---|---|
| **Pennod 2** | Yn amlinellu'r **fethodoleg** werthuso |
| **Pennod 3** | Yn archwilio **dyluniad rhaglen bolisi'r HoH** |
| **Pennod 4** | Yn archwilio sut mae **ALlau** wedi cynllunio a chyflwyno'r rhaglen |
| **Pennod 5** | Yn adrodd ar **gyflwyniad gan ddarparwyr** |
| **Pennod 6** | Yn adrodd ar **brofiadau plant a phobl ifanc** |
| **Pennod 7** | Yn archwilio **deilliannau a manteision cyffredinol HoH** |
| **Pennod 8** | Yn cyflwyno **argymhellion** sy'n deillio o'r ymchwil |
| **Pennod 9** | Yn tynnu **casgliadau'r** gwerthusiad ynghyd |

## 2. Methodoleg

2.1 Cyflawnwyd ymchwil sylfaenol ac eilaidd fel rhan o'r gwerthusiad proses dulliau cymysg hwn, rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021. Dangosir y dulliau, y grwpiau cyfranogwyr a'r sampl a gyflawnwyd o fewn Tabl 2.

**Tabl 2**: **Dulliau a sampl a gyflawnwyd**

| Grŵp cyfranogwyr | Dull | Diben | Sampl a gyflawnwyd |
|---|---|---|---|
| **Uwch randdeiliaid** Swyddogion Llywodraeth Cymru/ partneriaid cenedlaethol | Cyfweliadau ansoddol | Darparu cyd-destun y rhaglen, sut y bwriadwyd ei gyflwyno | 15 |
| **Arweinwyr HoH ALI** | Gwybodaeth reoli (GR) | Dadansoddiad o gynigion ariannu ALlau | 22 |
| | Cyfweliadau ansoddol | Archwilio sut y cyflwynwyd rhaglenni'n lleol, yr hyn a ddysgwyd a deilliannau canfyddedig | 19 |
| **Darparwyr** | Arolwg ar-lein | Cywain barn a phrofiadau rheolwyr a staff fu'n darparu gweithgareddau HoH | 249 |
| | GR | Dadansoddiad o ddata ar gyrhaeddiad y ddarpariaeth | 409 |
| **Cyfranogwyr y rhaglen** plant, pobl ifanc a theuluoedd | Arolwg ar-lein | Cywain barn a phrofiadau pobl fu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau HoH | 969 |
| | Cyfweliadau ansoddol | | 27 |
| **Y Ford Gron** | Arweinwyr a darparwyr ALI | Cyflwyno canfyddiadau cynnar a chyd-ddatblygu casgliadau ac argymhellion | 33 |

**Recriwtio cyfranogwyr ac ystyriaethau moesegol**

2.2 Ceir copi o ddeunyddiau cywain data yn Atodiad B. Cafodd yr holl ddeunyddiau i gyfranogwyr eu cyfieithu i'r Gymraeg yn broffesiynol ar ôl cytuno ar y fersiynau terfynol gyda Llywodraeth Cymru. Cynigiwyd cyfweliadau ac arolygon ansoddol yn Gymraeg ac yn Saesneg. At ei gilydd, cwblhawyd 2 gyfweliad a 2 grŵp ffocws yn Gymraeg; Cwblhawyd 29 o arolygon gan gyfranogwyr ac 8 gan ddarparwyr yn Gymraeg hefyd.

2.3 Darparodd Llywodraeth Cymru gyfeiriadau e-bost uwch randdeiliaid ac arweinwyr HoH ALlau i'r tîm ymchwil. Gwahoddodd y tîm ymchwil ddarpar gyfranogwyr i gymryd rhan mewn cyfweliad, gan anfon hyd at dri nodyn atgoffa. Rhannodd y tîm ymchwil ddolenni i'r arolygon ar-lein ar gyfer darparwyr a chyfranogwyr gydag arweinwyr ALl i'w hanfon ymlaen er mwyn i ddarparwyr eu rhannu. Gwahoddwyd cyfranogwyr y rhaglen i gymryd rhan mewn cyfweliad drwy uwch randdeiliaid, arweinwyr ALl neu ddarparwyr yr oeddent yn eu hadnabod ac yn gweithio gyda nhw. Cyn dechrau cyfweliad, gwiriodd yr ymchwilydd fod cyfweleion yn deall beth oedd natur y cyfranogiad a'u bod eisiau cymryd rhan. Gwnaed cyfweliadau â phlant a phobl ifanc dan 16 oed gydag oedolyn yn bresennol yn yr ystafell (e.e., staff y darparwr). Dyluniodd a dosbarthodd Llywodraeth Cymru gynnig yr ALl a'r offer cywain data gwybodaeth reoli. Rhannwyd y data hwn gyda'r tîm ymchwil at ddibenion dadansoddi eilaidd.

**Cywain, rheoli a dadansoddi data**

2.4 Hwyluswyd yr holl drafodaethau ansoddol gyda chymorth canllawiau pwnc lled-strwythuredig ac fe'u cynhaliwyd o bell dros MS Teams. Cafodd pob cyfweliad ei recordio a'i drawsgrifio'n awtomatig. Defnyddiwyd y trawsgrifiadau i ysgrifennu data'r cyfweliad o dan y penawdau a'r is-benawdau thematig cytunedig. Cafodd yr holl ddata ansoddol ei gofnodi a'i brosesu yn Excel. Roedd hyn yn cynnwys codio cychwynnol a thagio'r data gan ddefnyddio ffrâm godio gytunedig. Ar ôl i ddata ansoddol gael ei godio, cynhaliwyd cam dadansoddi eilaidd fu'n galluogi dadansoddi thematig yn erbyn cwestiynau ymchwil y gwerthusiad.

2.5 Gwnaed dadansoddiad o'r arolwg meintiol a data GR mewn pecyn meddalwedd o'r enw R. Cafodd y data ei lanhau cyn rhedeg ystadegau disgrifiadol (amlderau a thraws-dablu) i archwilio allbynnau a deilliannau gwahanol y rhaglen.

2.6 Yna, cafodd y deilliannau ar draws gwahanol randdeiliaid a dulliau cywain data eu triongli. Roedd hyn yn caniatáu archwilio'r canfyddiadau ar draws grwpiau cyfranogwyr a dadansoddi i ba raddau yr oedd cyfatebiaeth ar draws pob thema.

**Ystyriaethau o ran data**

2.7 Cynhaliwyd y broses o gywain data gwerthuso ochr yn ochr â'r ddarpariaeth HoH. Ni wnaeth nifer fach o ALlau (3) ymateb i'r gwahoddiad i gymryd rhan mewn cyfweliad.

2.8 Er bod y cyfnod cyflwyno yn amser prysur i ddarparwyr, roedd y gyfradd ymateb i'r arolwg yn dda (n=249). Er hynny, nid yw proffil llawn partneriaid darparwyr HoH yn hysbys felly nid yw'n bosib nodi a yw'r sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli'r holl ddarparwyr yn llawn. Ni dderbyniwyd rhai ffurflenni GR mewn pryd i'w cynnwys yn y dadansoddiad. Felly, nid yw'r dadansoddiad yn cynrychioli graddfa lawn y ddarpariaeth HoH. Roedd bylchau ac anghysondebau yn yr wybodaeth reoli. Nid oedd cyfran o ddarparwyr wedi cywain a chyflwyno'r holl wybodaeth reoli ofynnol, ac roedd amrywiad yn y ffordd y cafodd ceisiadau am ddata eu dehongli a'u cynnwys yn y ffurflen.

2.9 Roedd dibyniaeth ar ddarparwyr i helpu wrth weinyddu a lledaenu'r arolwg cyfranogwyr ac er bod y gyfradd ymateb ar gyfer yr arolwg cyfranogwyr yn dda (n=969), roedd y tîm ymchwil yn gyfyngedig o ran ei allu i fwyafu'r cyfraddau cwblhau. Roedd hyn er mwyn lleihau risgiau diogelu data, a galluogi'r rhaglen i gael ei sefydlu ar garlam. At hynny, nid oedd trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol (e.e., enw a gwybodaeth gyswllt) gyda thrydydd parti (h.y., cwmni gwerthuso annibynnol) wedi'u gweithredu. Cynhaliwyd llai o gyfweliadau â phlant na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol. Roedd darpariaeth fwy cyfyngedig yn ystod wythnosau olaf y rhaglen ac roedd gan ddarparwyr lai o gyswllt uniongyrchol â chyfranogwyr, gan gyfyngu ar y cyfleoedd i recriwtio ar gyfer y cyfweliadau. Efallai y bydd unrhyw gynlluniau tebyg yn y dyfodol am ystyried gwneud trefniadau, yn unol

â GDPR y DU, i wybodaeth bersonol gael ei chywain a'i rhannu â chwmni gwerthuso annibynnol.

2.10 Cynhaliwyd yr holl ymchwil sylfaenol o bell, yn unol â mesurau cadw pellter cymdeithasol. Gall astudiaethau tebyg yn y dyfodol elwa o gynnwys arsylwi gweithgareddau, a chyfweliadau wyneb yn wyneb gyda darparwyr a phlant, pobl ifanc a theuluoedd.

2.11 Mae'r canfyddiadau'n adrodd am ddeilliannau canfyddedig a hunangofnodedig y rhaglen. Gallai gwerthusiadau o unrhyw weithgareddau tebyg yn y dyfodol gynnwys gwerthusiad effaith i asesu cynnydd tuag at y deilliannau a nodwyd. Gall unrhyw raglenni o natur debyg yn y dyfodol hefyd elwa o gynnwys model rhesymeg (Atodiad A) i ddarparu dealltwriaeth a rennir o'r gweithgareddau a'r deilliannau a fwriedir yn ogystal â fframwaith ar gyfer unrhyw werthusiad.

## 3. Dyluniad y rhaglen

3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu dyluniad y rhaglen o safbwynt uwch randdeiliaid, gan gynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr sefydliadau partner cenedlaethol fu'n ymwneud â datblygu polisi.

**Datblygu'r rhaglen a'r sail resymegol**

3.2 Un o nodau trosgynnol y rhaglen HoH oedd cefnogi plant a phobl ifanc i ymadfer yn sgil effeithiau niweidiol y pandemig COVID-19. Deilliodd syniad y rhaglen o Gomisiynydd Plant Cymru wrth ymateb i ddau arolwg o blant, 'Coronafeirws a Fi' (Comisiynydd Plant Cymru, 2020). Awgrymodd canlyniadau'r arolwg fod angen cynnig cymorth cyffredinol i roi cyfleoedd i blant a phobl ifanc chwarae a chymdeithasu. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn ystyried ffyrdd o gefnogi anghenion lles corfforol a meddyliol plant i ategu gweithgareddau ymadfer yn sgil COVID-19 eraill, megis cymorth ar gyfer lles a dilyniant dysgwyr, drwy'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio.

> ‘Mae'r 18 mis diwethaf wedi amlygu plant i brofiadau andwyol iawn, a gwyddom y gall chwarae fod yn ffordd bwysig o wella - chwarae, ymgynnull gyda ffrindiau, a chymdeithasu.’ *Uwch randdeiliad, partner cenedlaethol*

3.3 Gyda Llywodraeth Cymru, ymgynghorodd y Comisiynydd Plant â rhanddeiliaid o lywodraeth genedlaethol, awdurdodau lleol, sefydliadau ar draws y celfyddydau, chwaraeon a diwylliant, yn ogystal â phlant a phobl ifanc i lunio'r polisi.

**Myfyrdodau ar ddyluniad y rhaglen**

3.4 Bu cefnogaeth eang i raglen bolisi'r HoH ar draws uwch randdeiliaid. Roeddent o'r farn y byddai'n helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd i ail-ymgysylltu â'u cymunedau, eu hobïau a'u diddordebau, ar ôl y cyfnodau clo.

*Enw, cwmpas a llinell amser y rhaglen*

3.5 Roedd rhanddeiliaid o blaid cynnwys y gair 'hwyl' yn enw'r rhaglen. Roeddent yn credu ei fod yn ddealladwy i bawb ac yn cyfleu naws y rhaglen. Fodd bynnag, un pryder oedd bod yr enw'n awgrymu'n anfwriadol mai'r haf oedd yr unig amser i gael hwyl yn hytrach na thrwy gydol y flwyddyn.

> ‘Y pethau da am HoH fel brand yw'r eglurder y mae'n ei gynnig. Mae'r enw'n dweud y cyfan – mae'n codi pwysigrwydd hwyl, chwarae, bod yn yr awyr agored ac mae'n hawdd ei ddeall i bawb.’ *Uwch randdeiliad, partner cenedlaethol*

3.6 Esboniodd swyddogion y Llywodraeth fod polisi chwarae cyfan Llywodraeth Cymru'n seiliedig ar Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), sef bod gan bob plentyn yr hawl i chwarae. Roedd uwch randdeiliaid o blaid cynnig cyffredinol, gan gydnabod bod y pandemig wedi effeithio ar bob plentyn a pherson ifanc. Awgrymwyd hefyd y byddai hyn yn dileu'r stigma a all fod ynghlwm wrth raglenni wedi'u targedu. Roedd uwch randdeiliaid yn awyddus i grwpiau yr effeithiwyd arnynt yn anghymesur gan y pandemig gael eu cyrraedd, gan gynnwys y rhai mewn teuluoedd ag incwm isel, y rhai ag ADY, anableddau, grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, awgrymodd rhai rhanddeiliaid nad oedd y canllawiau'n glir ynghylch a oedd hwn yn gynnig cyffredinol neu wedi'i dargedu, ac felly’n agored i ddehongliad gan ALlau. Yn olaf, roedd rhanddeiliaid yn gefnogol o'r rhaglen yn rhedeg i fis Medi 2021, i gefnogi'r broses o drosglwyddo plant a phobl ifanc yn ôl i addysg neu weithgareddau arferol.

*Cyflwyniad y rhaglen gan ALlau*

3.7 Cyflwynwyd yr HoH gan ALlau, gyda chyllid yn cael ei ddyrannu i ALlau yn gyfrannol, yn seiliedig ar faint y boblogaeth ac amddifadedd. Oherwydd cyfyngiadau amser, cyflwynwyd yr arian drwy'r Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan presennol. Felly, safodd yr HoH gydag Arweinwyr Chwarae'r ALl[2]. Anogwyd Arweinwyr Chwarae i fabwysiadu dull ar draws ALlau, gan ddefnyddio arbenigedd mewn timau eraill o fewn yr ALl. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau rhaglen i ALlau. Y bwriad oedd peidio â bod yn rhagnodol, gan ddarparu nodau allweddol i'w dilyn tra'n rhoi'r rhyddid i ALlau gynllunio cynnig i ddiwallu eu hanghenion lleol. Bu'n ofynnol i ALlau gyflwyno eu cynlluniau i swyddogion y

[2] Mae Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan yn gysylltiedig â'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae sy'n ei gwneud yn ofynnol i ALlau asesu a sicrhau digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd. Mae'n cwmpasu'r ystod oedran 0 i 17. Felly, mae gan Arweinwyr Chwarae ALl wybodaeth am y ddarpariaeth yn eu hardal ac fe'u hanogir i gysylltu â thimau a all ddylanwadu ar chwarae plant.

Llywodraeth eu goruchwylio. Roedd yn ofynnol i bob darparwr gyflwyno gwybodaeth reoli er mwyn cywain data cyflwyno cyson. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau brandio i ALlau er mwyn sicrhau rhaglen y gellir ei hadnabod yn genedlaethol.

3.8 Esboniodd rhanddeiliaid fod gan bob ALl wahanol staff a grwpiau sefydlu ar gyfer grantiau chwarae. Mae gan rai ALlau dimau mawr ond dim ond arweinydd unigol sydd gan rai eraill. Felly, teimlai rhanddeiliaid y gallai'r gwahaniaethau hyn fod wedi dylanwadu ar allu'r ALl i gynllunio a darparu'r HoH a'i gapasiti i ymgysylltu â darparwyr newydd neu amrywiol. Er hynny, dywedodd Arweinwyr Chwarae ar draws ALlau eu bod yn gweithio gyda phartneriaid ar draws yr ALl (gweler Pennod 4).

**Gwella'r rhaglen**

3.9 Rhannodd rhanddeiliaid fyfyrdodau ar ffyrdd o wella'r rhaglen HoH ymhellach ac ystyriaethau ar gyfer darpariaeth gwyliau yn y dyfodol.

*Penodi darparwyr*

3.10 Awgrymodd uwch randdeiliaid ar draws Llywodraeth Cymru a phartneriaid cenedlaethol fel ei gilydd mai un o anfanteision rhoi'r dasg o ddatblygu prosesau lleol ar gyfer darparwyr cyllid i ALlau oedd bod yn rhaid i sefydliadau cenedlaethol ddelio â 22 o brosesau ymgeisio gwahanol. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd i sefydliadau mantell gefnogi eu haelodau yn eu ceisiadau am gyllid. Roedd y rhanddeiliaid hyn hefyd o'r farn y gallai fod arbedion effeithlonrwydd posib petai sefydliadau cenedlaethol yn cyflwyno agweddau ar y rhaglen.

3.11 Awgrymodd un rhanddeiliad y gallai ALlau fod wedi creu partneriaeth â sefydliad mantell sector gwirfoddol a chymunedol lleol i ddatblygu eu cynigion lleol. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn helpu i sicrhau bod ystod ehangach o ddarparwyr posib yn cael eu cefnogi i wneud cais am gyllid, ac yn diogelu yn erbyn y posibilrwydd y byddai ALlau ond yn gweithio gyda phartneriaid presennol a phartneriaid yr oeddent yn gyfarwydd â hwy. Awgrym arall oedd y gallai ALlau gaffael darparwyr cymeradwy ac amrywiol drwy rwydwaith sefydliadau'r Comisiynydd Plant.

3.12 Roedd rhanddeiliaid a oedd yn cynrychioli sefydliadau cofrestredig o'r farn bod yr HoH wedi creu cystadleuaeth rhwng darparwyr gofal plant a chwarae sy'n gofrestredig ag Arolygiaeth Gofal Cymru a'r sefydliadau hynny sy'n darparu amrywiaeth o weithgareddau i blant nad oeddent yn gofrestredig. Awgrymwyd y dylai darparwyr cofrestredig fod wedi cael eu ffafrio, gan eu bod yn cynnig safon o ansawdd na ellir ei gwarantu gan sefydliadau nad ydynt yn gofrestredig. Fodd bynnag, sefydlwyd y rhaglen hon i gynnwys plant a phobl ifanc hŷn, ac ystod ehangach o wasanaethau na'r hyn a gwmpesir gan gylch gwaith Arolygiaeth Gofal Cymru.

*Cwmpas y gweithgareddau a ariannwyd*

3.13 Un mater a godwyd gan uwch randdeiliaid fu'n cynrychioli sefydliadau gofal plant oedd bod y canllawiau'n aneglur ynghylch a ellid ariannu lleoedd gofal plant fel rhan o'r HoH. At hynny, adroddodd y rhai a oedd yn cynrychioli'r sector Gwaith Ieuenctid fod Gwasanaethau Ieuenctid (gyda gweithwyr ieuenctid cymwysedig) yn ansicr i ddechrau a fyddent yn gymwys i dderbyn cyllid, oherwydd y pwyslais ar chwarae.

3.14 Cwestiynodd y rhai sy'n cynrychioli sefydliadau'r Sector Ieuenctid a fyddai'r HoH yn cyrraedd ac yn ymgysylltu â phobl ifanc. Roeddent o'r farn y dylai'r Gweinidog sy'n gyfrifol am waith ieuenctid fod ynghlwm wrth gynllunio'r rhaglen. Roeddent yn pryderu y bu ymgysylltiad pobl ifanc yn y rhaglen yn is na'r hyn y gallai fod. Bu iddynt briodoli'r bwlch hwn i'r cyllid a sianelwyd drwy dimau chwarae ALl ynghyd â'r seilwaith cryfach sydd mewn lle ar gyfer darpariaeth plant iau. Fodd bynnag, credai Arweinwyr Chwarae'r ALl yn gyffredinol fod canllawiau'r rhaglen yn glir ac ni fu iddynt adrodd am y fath ansicrwydd (gweler Pennod 4).

3.15 Roedd gan rai ALlau isafswm ar gyfer cyllido. Awgrymodd uwch randdeiliaid sy'n cynrychioli sefydliadau partner cenedlaethol y gallai sefydliadau fod wedi cynnig ychwanegedd at gynigion presennol gyda dyfarniadau grant bach iawn.

3.16 Credai rhanddeiliaid fod gan y rhaglen botensial i nodi gwendidau ac anghenion anhysbys teuluoedd. Awgrymwyd y gellid rhoi gwybodaeth i ddarparwyr i gyfeirio teuluoedd at wasanaethau cymorth, er enghraifft, at fanciau bwyd a chymorth trais yn y cartref. Fodd bynnag, diben lleoedd gofal plant a ddarparwyd gan ALl oedd

darparu seibiant ar gyfer rhieni. At hynny, cefnogodd Gwaith Chwarae weithwyr cymdeithasol trwy alluogi nhw i weithio gyda theuluoedd pan oedd y plant gyda gweithwyr chwarae.

*Alinio â rhaglenni cyflenwol*

3.17 Awgrymodd rhanddeiliaid hefyd y dylai fod gofyniad wedi bod ar ALlau i ymgymryd â mapio gweithgareddau haf presennol yn eu ALl cyn cael cyllid er mwyn lleihau'r risg o ddyblygu ac i nodi bylchau yn y ddarpariaeth. Er enghraifft, nodwyd bod gan yr HoH botensial i weddu'n well â Rhaglen Gwella Gwyliau'r Haf (RhGGH)[3], sef rhaglen sydd eisoes yn cefnogi plant agored i niwed.

*Brand y rhaglen*

3.18 Sylwodd swyddogion y Llywodraeth nad oedd pob ALl a darparwr yn defnyddio brand swyddogol HoH. Awgrymwyd y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi cyfathrebu'n uniongyrchol â thimau marchnata ALlau i sicrhau bod y brand yn cael ei ddefnyddio.

**Cynaladwyedd y rhaglen**

3.19 Roedd rhanddeiliaid o blaid buddsoddiad hirdymor mewn darpariaethau anffurfiol i gefnogi plant a phobl ifanc mewn ffordd barhaus. Nid yn unig i gefnogi adfer yn sgil COVID-19, ond agenda ataliol ehangach iechyd y cyhoedd. Un awgrym oedd 'Blwyddyn o Hwyl', lle mae HoH yn darparu cynllun peilot i ddysgu ac adeiladu ohono. Awgrymodd rhanddeiliaid fod angen darpariaeth gydol flwyddyn, y gellid ei chyflwyno ar ôl ysgol, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau. Amlygwyd y byddai cyllid hirdymor yn cefnogi plant a theuluoedd i feithrin cysylltiadau ymddiriedus gyda darparwyr ac ymarferwyr. Byddai hefyd yn galluogi darparwyr i fuddsoddi yn eu gweithluoedd.

3.20 At hynny, awgrymodd rhanddeiliaid y gallai'r rhaglen fod wedi creu disgwyliad o ddarpariaeth haf mynediad-am-ddim ymysg y cyhoedd yn y dyfodol. Bu iddynt gwestiynu a fyddai modd i Lywodraeth Cymru gynnig y lefel hon o gyllid eto.

---

[3] Nododd canllawiau'r ALl na ddylai'r HoH gystadlu â'r ddarpariaeth bresennol. Mae RhGGH yn digwydd am 10 niwrnod ar gyfartaledd yn ystod yr haf gyda charfanau bach o blant ym mhob ALl; mae agwedd addysgol iddi hefyd. [‘Bwyd a Hwyl' Rhaglen Gwella Gwyliau’r Haf (SHEP)]

## 4. Cynllunio a chydgysylltu rhwng awdurdodau lleol

4.1 Mae'r adran hon yn mapio dulliau ALl o ddarparu'r HoH. Mae'n amlinellu'r prosesau gweinyddol a gweithredol, yr hyn a weithiodd yn dda neu a gyflwynodd heriau i weithredu. Daw'r dystiolaeth o gyfweliadau ag arweinwyr ALlau.

**Canllawiau a chymorth Llywodraeth Cymru**

4.2 Adroddodd arweinwyr ALlau fod canllawiau'r rhaglen yn glir ac yn cynnig hyblygrwydd i ddiwallu anghenion lleol. Holodd arweinwyr pam y rhestrwyd darparwyr yn y canllawiau. Esboniwyd ei fod i'w weld yn creu disgwyliad y byddai'r darparwyr hyn yn cael eu cyllido. Bu'n rhaid i arweinwyr ALlau wedyn reoli'r disgwyliad hwn. Dywedodd arweinwyr ALl a fynychodd gymorthfeydd ar-lein HoH ei fod yn ddefnyddiol ac yn galonogol i glywed cynlluniau ALlau cyfagos. I rai ALlau, cynhaliwyd y cymorthfeydd yn rhy hwyr i ddylanwadu ar eu cynlluniau. Roedd awydd ymhlith arweinwyr ALlau am gyfleoedd pellach i rannu dysgu gydag ALlau eraill am eu dulliau gweithredu. Roedd yr arweinwyr yn gwerthfawrogi bod arweinydd Llywodraeth Cymru yn hawdd mynd ato, yn ymatebol ac yn deall sut mae ALlau yn gweithio.

**Cynllunio a chydlynu**

*Grwpiau llywio a gweithgorau'r rhaglen*

4.3 Roedd yn gyffredin i arweinwyr ALlau gynnull gweithgorau i gynllunio a datblygu'r broses o gyflwyno rhaglenni. Roedd union fformat y rhain yn amrywio fesul ALl. Roedd grwpiau llywio gan rai, gyda chynrychiolwyr o bartneriaid fel y Gwasanaeth Ieuenctid a Llyfrgelloedd. Creodd ALlau eraill weithgorau llai penodol ar gyfer mathau penodol o ddarpariaeth (e.e., chwaraeon, y celfyddydau) neu ar gyfer grwpiau demograffig penodol (e.e., fesul grŵp oedran, plant ag anableddau). Dull amgen oedd dyrannu cyllid i wahanol adrannau ALl i'w gweinyddu eu hunain. Yn y rhan fwyaf o ALlau, cafodd cynlluniau terfynol y rhaglen eu cymeradwyo gan arweinydd strategol yn y Gwasanaethau i Blant.

*Mapio'r ddarpariaeth bresennol a llenwi bylchau*

4.4 Dechreuodd rhai ALlau drwy fapio eu cynigion haf presennol ar draws adrannau ALl ar gyfer yr ystod oedran 0-25. Bu hyn o gymorth wrth nodi cyfleoedd i 'ychwanegu at' ddarpariaeth a bylchau y gallai'r HoH eu llenwi. Adroddodd arweinwyr ALl eu bod wedi cryfhau gwaith partneriaeth ar draws ALlau a chreu cynnig haf 0-25 oed cynhwysfawr, o ganlyniad i'r HoH.

> 'Mae wedi dod â'r gwahanol sefydliadau at ei gilydd a chreu mwy o raglen haf gyfannol yn hytrach na'r un chwaraeon a'r un chwarae, un y gwasanaeth ieuenctid. Mae wedi dod â nhw at ei gilydd i'w hybu i gynulleidfa ehangach.' *Arweinydd ALl, trefol/gwledig*

*Ymgynghori â phlant, pobl ifanc a phartneriaid lleol*


4.5 Er bod rhai ALlau wedi ymgynghori â phlant, pobl ifanc a phartneriaid lleol i helpu i gyfeirio dyluniad eu rhaglen HoH, dywedodd y rhan fwyaf o ALlau nad oedd ganddynt ddigon o amser i wneud hynny. Yn hytrach, bu iddynt adeiladu ar ymgynghoriadau ac adborth yn y gorffennol ar raglenni tebyg, e.e., rhaglen y Grant Plant a Chymunedau.

**Modelau rhaglen HoH ALlau**

4.6 Defnyddiodd ALlau sydd â chynnig haf presennol yr HoH i ehangu hyn. Gwnaethant gynnwys mwy o weithgareddau a gweithgareddau estynedig ar draws yr ystod oedran 0-25. I'r gwrthwyneb, cynlluniodd ALlau heb gynnig haf blaenorol neu gynnig cyfyngedig, eu HoH o'r gwaelod i fyny.

4.7 Dewisodd y rhan fwyaf o ALlau raglen gyda chynnig mynediad agored ac wedi'i dargedu. Roedd y pwyslais a'r cyllid a ddyrannwyd i bob un o'r cydrannau hyn yn amrywio fesul ALl. Yn fras, mabwysiadodd rhaglenni ALl un o dri model fel y dangosir yn Ffigur 1 gan ddibynnu ar eu dehongliad o'r canllawiau HoH a chapasiti timau lleol.

**Ffigur 1: Model rhaglenni HoH ALlau**




4.8 Datblygodd timau ALl gynigion wedi'u targedu i ymgysylltu â theuluoedd a demograffeg sy'n agored i niwed. Nododd ALlau grwpiau a fyddai'n elwa o gymryd rhan ond a allai wynebu rhwystrau i dderbyn darpariaeth mynediad agored. Roedd y rhan fwyaf o ALlau yn targedu plant a phobl ifanc yr oedd timau Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a Chymorth Cynnar[4] yr ALl yn ymwybodol ohonynt. Yn ogystal, dewisodd ALlau dargedu grwpiau a oedd yn adlewyrchu anghenion eu poblogaethau lleol (fel y dangosir yn Ffigur 2). Gweithiodd ALlau yn agos gyda staff perthnasol yr ALl megis gweithwyr cymdeithasol a thimau Dechrau'n Deg[5] i nodi a chyfeirio grwpiau targed i'r rhaglen.

[4] Cymorth cynnar, a elwir hefyd yn ymyrraeth gynnar, yw cymorth a roddir i deulu pan ddaw problem i'r amlwg gyntaf. Gellir ei ddarparu ar unrhyw adeg ym mywyd plentyn neu berson ifanc. Mae canllawiau statudol ym mhob gwlad yn y DU yn amlygu pwysigrwydd darparu ymyrraeth gynnar, yn hytrach nag aros nes bod sefyllfa plentyn neu deulu yn gwaethygu. Gellir darparu gwasanaethau Cymorth Cynnar i rieni, plant neu deuluoedd cyfan, ond eu prif ffocws yw gwella deilliannau i blant.

[5] Dechrau'n Deg yw rhaglen y Blynyddoedd Cynnar wedi'i thargedu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant dan 4 oed sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

**Ffigur 2: Enghreifftiau o grwpiau wedi'u targedu gan HoH yr ALlau**

- Teuluoedd â gweithiwr cymdeithasol neu sy'n hysbys i Gymorth Cynnar
- Grwpiau addysg yn y cartref
- Sipsiwn a Theithwyr
- Ffermwyr ifanc
- Gofalwyr ifanc
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches ifanc
- Rhieni ifanc
- Y rhai sy'n hysbys i Dimau Troseddau Ieuenctid

**Amserlen gyflwyno**

4.9 Roedd modd i'r rhaglen HoH redeg rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2021. Oherwydd pwysau amser, dechreuodd ALlau eu darpariaeth yn gyffredinol tua diwedd mis Gorffennaf, gan gyd-daro â gwyliau haf yr ysgol. Roedd ALlau hefyd yn cynnal darpariaeth i mewn i fis Medi, gan gynnig gweithgareddau ar ôl ysgol ac ar benwythnosau.

**Darparwyr HoH**

4.10 Defnyddiodd ALlau un o ddau ddull o benodi darparwyr. Gwnaeth ALlau â chynigion presennol yr haf, 'ategu' cyllid darparwyr allanol presennol a thimau mewnol (e.e., Gwasanaeth Ieuenctid) i gynnal gweithgareddau ychwanegol gan ddefnyddio cyllid HoH. Ystyriwyd bod gweithio gyda darparwyr presennol yn effeithlon o fewn yr amserlen. Roedd hefyd yn dileu'r angen am sicrhau ansawdd darparwyr newydd ac anhysbys. Fel arall, cynhaliodd ALlau broses ymgeisio am grant, lle cyflwynodd darpar ddarparwyr, gan gynnwys timau ALl mewnol, geisiadau ffurfiol am gyllid. Cafodd ceisiadau eu hasesu a'u sgorio'n ffurfiol. Caniataodd hyn i ddarparwyr newydd dderbyn cyllid HoH a rhoi sicrwydd i ALlau eu bod wedi asesu pob darpar ddarparwr yn deg. Caniataodd rhai ALlau i ddarparwyr ofyn am symiau bach o gyllid i ddarparu ychwanegedd at y ddarpariaeth bresennol, e.e., cyllid ychwanegol i brynu offer neu i ariannu gwibdaith i gyfranogwyr. Yn ogystal, dewisodd ALlau ariannu lleoedd o fewn y darpariaethau presennol, mewn rhai achosion. Manteisiodd ALlau i'r eithaf ar y cyllid drwy ddefnyddio eu hasedau lleol. Er

enghraifft, trefnodd rhai ALlau docynnau am ddim neu am bris gostyngol i atyniadau lleol a chynhaliwyd gweithgareddau mewn parciau ac ar draethau lleol, er mwyn lleihau costau lleoliadau.

*Darparwyr arbenigol ar gyfer pobl ag anableddau*

4.11 Ymgysylltodd ALlau â darparwyr arbenigol i ddarparu gweithgareddau ar gyfer pobl ag anableddau. Dywedodd rhai arweinwyr ALl fod argaeledd darparwyr arbenigol yn gyfyngedig yn eu hardal. Esboniwyd bod darparwyr arbenigol, yn enwedig y rhai sy'n cynnig lefel uwch o gymorth (e.e., darpariaeth 1-i-1) yn gyffredinol eisoes yn gweithio gyda theuluoedd. Felly, ychydig iawn o ychwanegedd a gynigiodd y HoH ar gyfer y grwpiau hyn.

*Darpariaeth Gymraeg*

4.12 Roedd pob arweinydd ALl yn ymwybodol o'r angen am gynnig darpariaeth Gymraeg. Fodd bynnag, roedd argaeledd darparwyr cyfrwng Cymraeg yn amrywio yn ôl ALl. Mewn un ALl, eglurodd yr arweinydd nad oedd gan ddarparwyr lleol staff â sgiliau Cymraeg. Mewn ALlau eraill, roedd gan ddarparwyr staff a oedd yn ddwyieithog. Blaenoriaethodd un arweinydd ALl gomisiynu darparwyr cyfrwng Cymraeg dros wasanaethau dwyieithog i annog plant a phobl ifanc i ymarfer Cymraeg. Esboniodd rhai arweinwyr ALl, o'u profiad hwy, nad oedd llawer o ddiddordeb ymhlith teuluoedd yn eu hardal i ymgymryd â darpariaeth Gymraeg.

*Grwpiau oedran hŷn: 16-25 oed*

4.13 Profodd arweinwyr ALl heriau cyffredin wrth ddatblygu cynnig ar gyfer grwpiau oedran 16+ oed. Nododd arweinwyr fod gan y grŵp oedran hwn flaenoriaethau sy'n cystadlu yn aml, fel treulio amser gyda ffrindiau neu weithio. Roedd ALlau fel arfer yn cynnwys Gwasanaeth Ieuenctid yr ALl, drwy Weithwyr Ieuenctid cymwysedig[6] i redeg gweithgareddau gwaith ieuenctid. Yn rhannol, roedd hyn yn cynnwys gwibdeithiau a fu'n helpu i ennyn diddordeb y grŵp oedran hwn. Roedd ffyrdd newydd eraill o ennyn diddordeb y grŵp hwn yn cynnwys: cynnal sesiynau rhagflas Dug Caeredin, darparu tocynnau campfa neu dosbarthiadau blas ar yrru.

[6] Ariennir fel rhan o Grant Cynnal Refeniw i ALlau

Awgrymodd arweinwyr ALlau y gallai cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli a phrofiad gwaith apelio at yr ystod oedran hon.

*Gweithluoedd gwirfoddolwyr*

4.14 Roedd gweithluoedd gwirfoddolwyr yn rhan o fodelau HoH rhai ALlau. Byddinodd yr ALlau hyn eu gwirfoddolwyr presennol i gefnogi'r cyflwyniad gan ddarparwyr. Adroddodd ALl arall fod darparwr wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â rhieni fu'n mynychu eu gweithgareddau i fod yn wirfoddolwyr hyfforddedig.

**Sicrhau ansawdd darparwyr**

4.15 Ar draws ALlau, rhoddwyd cytundebau cyllido i ddarparwyr. Roedd yn ofynnol i bob sefydliad newydd ei benodi fodloni safonau ansawdd yr ALl. Roedd prosesau sicrhau ansawdd yn cynnwys adolygiadau o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus darparwyr, polisi iechyd a diogelwch a pholisi diogelu. Nododd ALlau fod gan rai darparwyr newydd a'r rhai nad oeddent wedi gweithredu yn ystod y cyfnod clo fylchau yn eu gweithdrefnau diogelu ac roedd rhai'n ansicr sut i gwblhau asesiadau diogelwch COVID-19. Rhoddodd arweinwyr ALlau gefnogaeth i ddarparwyr i lenwi bylchau yn eu prosesau. Oherwydd yr angen i benodi darparwyr ar frys, roedd gan rai arweinwyr ALl bryderon ynghylch a oedd yr holl brosesau sicrhau ansawdd wedi'u gweithredu'n ddigonol. Nododd ALlau fod angen mwy o gymorth ar rai darparwyr nag eraill, er enghraifft wrth nodi lleoliadau, systemau archebu a marchnata, a oedd yn faich o ran amser i dîm yr ALl.

4.16 Yn ystod y broses gyflwyno, cadwodd arweinwyr ALl mewn cysylltiad â darparwyr drwy e-bost a thros y ffôn yn gyffredinol. Defnyddiodd un ALl fforwm sefydledig i ddarparwyr gefnogi ei gilydd a rhannu arfer da. Roedd rhai ALlau wedi cynllunio sesiwn adrodd yn ôl gyda darparwyr i gywain adborth ar ddiwedd y broses gyflwyno. Cynhaliodd rhai ALlau archwiliadau ar hap o'r ddarpariaeth, ond nid oedd hyn yn gyffredin. Esboniodd arweinwyr ALlau mai rhwystr allweddol oedd diffyg capasiti staff i gynnal gwiriadau ar hap, yn enwedig ochr yn ochr â monitro RhGGH. Roedd angen cymeradwyaeth ar rai staff ALl i ymweld â darparwyr fel rhan o fesurau diogelwch COVID-19. Cwestiynodd rhai arweinwyr ALl ai nhw oedd y rhai gorau i sicrhau ansawdd yr ystod o ddarpariaeth, gan fod llawer ohoni y tu hwnt i'w

cylch gwaith chwarae. Yn olaf, nododd un ALl ddarparwr a fu’n hyrwyddo ei weithgareddau o dan y brand HoH, er nad oedd wedi cael ei ariannu gan y rhaglen.

4.17 Datblygodd ALlau drefniadau anffurfiol ar gyfer hyfforddi staff darparwyr. Cynigiodd un tîm ALl hyfforddiant ac anogaeth chwarae i staff y Ganolfan Deuluol fel y gallent barhau i gefnogi gweithgareddau chwarae y tu hwnt i HoH. Yn yr un modd, datblygodd ALl arall gytundeb cyfnewid gwybodaeth, lle'r oedd yr ALl yn darparu hyfforddiant chwarae i staff darparwr hamdden. Yn gyfnewid am hyn, cyflwynodd y darparwr sesiwn ddysgu am yr agenda hamdden i'r ALl.

**Costau cludiant**

4.18 Gellid defnyddio'r cyllid HoH i dalu costau cludiant cyfranogwyr. Fel arfer, gwnaeth ALlau benderfyniad pragmatig i ariannu costau teithio grwpiau wedi'u targedu, ond nid grwpiau cyfranogwyr eraill. Ceisiodd ALlau gynllunio gweithgareddau a leolwyd o fewn pellter cerdded i gymunedau lleol, er mwyn lleihau'r risg y byddai cludiant yn rhwystr i gymryd rhan. Croesawodd ALlau sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig y gallu i dalu am gostau cludiant. Nododd arweinwyr ALl heriau ymarferol ad-dalu costau cludiant. Ni allai cyfranogwyr bob amser fforddio talu am docynnau bws neu drên ymlaen llaw ac aros i gael eu had-dalu. Yn gyffredinol, roedd gan ALlau systemau anfonebu uniongyrchol ar waith gyda darparwyr tacsis cymeradwy, fodd bynnag, roedd yr opsiwn hwn yn fwy costus nag opsiynau cludiant cyhoeddus.

**Cyfathrebu a marchnata**

4.19 Rhoddwyd canllawiau marchnata i ALlau i sicrhau bod holl weithgareddau'r rhaglen yn rhannu brand HoH cyffredin ac adnabyddadwy. Bu i ALlau â chynigion haf presennol a brand cysylltiedig gadw eu brand gwreiddiol er effeithlonrwydd. Marchnatodd rhai ALlau eu holl weithgareddau haf o dan y faner HoH, waeth sut y cawsant eu hariannu. Dywedodd ALlau a ymgysylltodd â'u Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd fod hwn yn ddull marchnata llwyddiannus. O gymharu, gallai timau Cyfathrebu a Marchnata ALlau fod yn araf i brosesu ceisiadau ac roedd y gofyniad am gyfieithu'r holl ddeunyddiau hefyd yn achosi oedi. Marchnatodd rhai ALlau eu cynnig ar wefan eu bwrdd croeso lleol hefyd. Yn olaf, roedd rhai arweinwyr

ALl yn teimlo'n fwy medrus a pharod i redeg ymgyrchoedd marchnata cyfryngau cymdeithasol na rhai eraill, gan awgrymu bwlch hyfforddi posib.

**Systemau archebu ar gyfer gweithgareddau**

4.20 Yn absenoldeb meddalwedd rheoli cwsmeriaid, defnyddiodd ALlau wefannau tocynnau megis 'Eventbrite' i reoli archebion. Roedd timau ALl yn cydnabod bod rhai teuluoedd yn fwy trefnus, yn fwy abl ac yn fedrus wrth lywio systemau archebu ar-lein, ac efallai y bu mynediad anghyfartal at adnoddau digidol (fel mynediad i'r rhyngrwyd a dyfeisiau). Roedd dulliau o isafu'r risg y bydd teuluoedd sy'n llai medrus o ran technoleg yn colli allan yn cynnwys: rhyddhau gweithgareddau ar sail wythnosol; rhyddhau archebion yn gynnar ar gyfer grwpiau targed; cadw lleoedd i deuluoedd 'droi i fyny' heb archebu ymlaen llaw; annog gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill i gwblhau archebion ar ran teuluoedd. Roedd arweinwyr ALlau o blaid darpariaeth am ddim, gan gydnabod y gall hyn olygu bod pobl yn archebu ond wedyn ddim yn troi i fyny nac yn canslo'n ffurfiol. Cododd un ALl ffi enwol am archebu gweithgareddau mynediad agored i annog presenoldeb.

**Rheoli risgiau COVID-19**

4.21 Roedd pob ALl yn gweithredu yng nghyd-destun COVID-19 a mesurau cenedlaethol a lleol newidiol. Esboniodd arweinwyr ALl fod cyflwyno rhaglen ar raddfa fawr ar yr un pryd ag atal lledaeniad y feirws yn ychwanegu haen o bryder iddynt. Tynnodd ALlau sylw at y ffaith y gallai eu mesurau diogelwch lleol fod yn fwy llym na chanllawiau cenedlaethol. Mynnodd rhai ALlau i'w darparwyr gael eu gwirio gan dîm diogelwch COVID-19 yr ALl. Cyfyngodd ALlau ar leoedd mewn gweithgareddau i liniaru risgiau trosglwyddo. Nid oedd y rhaglen bob amser yn cyrraedd teuluoedd a oedd yn hunan-ynysu neu'n bryderus ynghylch gadael eu cartrefi. Creodd darparwyr mewn rhai ALlau becynnau gweithgareddau cartref a gweithgareddau rhithwir i ymgysylltu â'r grwpiau hyn. Effeithiwyd ar rai darparwyr gan faterion capasiti staff, oherwydd gofynion i ynysu.

**Capasiti timau ALl**

4.22 Croesawodd Arweinwyr ALl y cyllid HoH. Roedd cefnogaeth eang dros y rhaglen a darparu gweithgareddau anffurfiol i gefnogi ymadfer yn sgil COVID-19 i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Yn gyffredinol, dyfarnwyd grantiau llawer mwy i ALlau nag yr

oeddent wedi'i ddisgwyl. Pwysleisiodd arweinwyr y byddent wedi elwa o amser ychwanegol ar gyfer cynllunio a sefydlu. Rhoddodd y llinell amser dynn bwysau gormodol ar dimau ALl, yn enwedig timau ALlau bach. Roedd arweinwyr yn cyflwyno HoH ochr yn ochr â'u llwyth gwaith presennol. Er bod yr arian yn darparu ar gyfer costau gweinyddol, esboniodd arweinwyr nad oedd digon o amser i benodi a hyfforddi staff newydd.


## 5. Cyflwyniad y rhaglen

5.1 Mae'r adran hon yn amlinellu'r rhaglen o safbwynt y darparwr. Mae'n cyflwyno tystiolaeth o'r arolwg darparwyr a data GR.

**Cyrhaeddiad y rhaglen**

5.2 Dangosodd data GR fod dros 67,641 o blant a phobl ifanc wedi mynychu o leiaf un sesiwn HoH[7]. Fel y mae Ffigur 3 yn ei ddangos, roedd 70% o'r plant a gymerodd ran yn oedran ysgol gynradd (5-11 oed), a dim ond 7% o'r cyfranogwyr oedd yn 16 oed neu'n hŷn. Roedd gan wahanol ALlau well cyrhaeddiad ar draws grwpiau oedran penodol nag eraill.

**Ffigur 3**: **Plant a phobl ifanc yn mynychu gweithgaredd HoH, fesul grŵp oedran**




Sylfaen: 55,293. Ffynhonnell: GR. Nodwch fod yr holl ddarparwyr wedi cywain neu ddarparu gwybodaeth am oedran.

[7] Mae'r rhif hwn yn cynrychioli plant a phobl ifanc unigol sy'n mynychu gweithgareddau gyda darparwr; bydd plant a phobl ifanc a fynychodd weithgareddau gyda sawl darparwr wedi'u cyfrif ddwywaith yn y ffigur hwn.

5.3 Roedd cyrhaeddiad yn ôl ethnigrwydd yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru[8], gyda'r rhan fwyaf (91%) o gyfranogwyr yn cael eu dosbarthu fel Gwyn[9] a'r 9% arall yn cael eu nodi fel lleiafrifoedd ethnig.

5.4 Ymhlith cyfranogwyr HoH, roedd gan 5% ADY ac roedd gan 3% anabledd[10]. Fel gydag oedran, roedd gan rai ALlau well cyrhaeddiad i'r rhai ag anghenion ychwanegol nag eraill.

**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg**

5.5 Yn ôl y data GR, cyflwynwyd 11% o'r holl sesiynau HoH drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynwyd ychydig o dan hanner (45%) drwy gyfrwng y Saesneg a 26% yn Saesneg yn bennaf gyda rhai elfennau dwyieithog a chyflwynwyd 17% yn Gymraeg ac yn Saesneg[11]. Cyflwynodd cyfran fach o ddarparwyr (1%) mewn cyfrwng arall, e.e., Iaith Arwyddion Prydeinig.


**Defnyddio'r cyllid**

5.6 Defnyddiodd darparwyr y cyllid HoH mewn amrywiaeth o ffyrdd fel y dangosir yn Ffigur 4, y tri defnydd pennaf o'r cyllid oedd darpariaeth y cynnig a dargedwyd (37% o ddarparwyr), darpariaeth newydd (36%) ac i brynu arbenigedd, e.e., hyfforddwr chwaraeon neu artist (33%).

---

[8] Ethnigrwydd yn ôl ardal a grŵp ethnig.
[9] Data GR (n=38,206). Nid oedd nifer o ddarparwyr yn gallu cyflenwi data am ethnigrwydd cyfranogwyr, gan nad oeddent wedi cywain yr wybodaeth hon.
[10] Data GR (n= 67, 641). Nid oedd nifer o ddarparwyr yn gallu cyflenwi data ADY neu anabledd cyfranogwyr, gan nad oeddent wedi cywain yr wybodaeth hon.
[11] Data GR (n=1,113 o sesiynau).

**Ffigur 4: Defnydd o gyllid HoH, gan ddarparwyr**





Sylfaen: 409 o ddarparwyr. Ffynhonnell: GR. Cyflwynodd y darparwyr weithgareddau lluosog, felly mae'r canrannau dros 100%.

5.7 Cynigiodd darparwyr amrywiaeth o fathau o ddarpariaeth HoH: Cynigiodd 35% o'r darparwyr ddarpariaeth Ieuenctid (sy'n cynnwys cyfuniad o glybiau ieuenctid a darpariaeth a gyflwynwyd gan Weithwyr Ieuenctid cymwysedig); Dywedodd 27% 'arall' a oedd yn cynnwys gweithgareddau teuluol, cymorth i rieni, gweithgareddau addysgol a gwibdeithiau; Cynigiodd 26% chwaraeon; cynigiodd 25% waith chwarae mynediad agored a chynigiodd 24% gelf a chrefft. Yn ogystal, cynigiodd 43% o ddarparwyr weithgareddau i deuluoedd[12] (Ffigur 5).

[12] Data GR: (n=409 o ffurflenni darparwr)

**Ffigur 5: Mathau o ddarpariaeth, gan ddarparwyr**





Sylfaen: 409 o ddarparwyr. Ffynhonnell: GR. Cyflwynodd y darparwyr weithgareddau lluosog, felly mae'r canrannau dros 100%.

**Lleoliad y ddarpariaeth**

5.8 Cyflwynodd darparwyr ar draws ystod o gyrchfannau a lleoliadau (Ffigur 6). Ymysg lleoliadau poblogaidd oedd: mannau cymunedol (45% o ddarparwyr); mannau agored gan gynnwys parciau a choedwigoedd (42%); yn ogystal â lleoliadau eraill (31%) gan gynnwys lleoliadau diwylliannol fel sinemâu, theatrau, sŵau neu yng nghartrefi cyfranogwyr.

**Ffigur 6**: **Lleoliadau cyflwyno, gan ddarparwyr**




Sylfaen: 409 o ddarparwyr Ffynhonnell: GR. Cyflwynodd darparwyr mewn lleoliadau lluosog, felly mae'r canrannau dros 100%.

### Gweithlu

5.9 Cyfrannodd gweithluoedd gwirfoddolwyr lawer iawn at y ddarpariaeth HoH. Yn ôl ymatebion yr arolwg darparwyr, cyflwynodd dros hanner y darparwyr (56%) weithgareddau'n gyfan gwbl gan staff cyflogedig; cyflwynodd 39% trwy gymysgedd o staff cyflogedig a gwirfoddolwyr; cyflwynodd cyfran fach (2%) gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr yn unig[13].

### Rhwystrau i bresenoldeb

5.10 Roedd darparwyr o'r farn mai'r rhwystrau allweddol i gyfranogwyr fynychu gweithgareddau HoH oedd: rhesymau sy'n ymwneud â rhieni/gofalwyr (59% o ddarparwyr); cludiant (29%); a COVID-19 (28%)[14].

[13] Arolwg darparwyr: gweithlu darparwyr (n=247); Nododd 3% o ddarparwyr 'ddim yn gwybod'.
[14] Arolwg darparwyr: rhwystrau canfyddedig i fynychu HoH (n=249)

### Arweiniad, cymorth a hyfforddiant gan ALlau

5.11 Nododd data'r arolwg fwlch posib mewn hyfforddiant a chymorth gan ddarparwyr, a gwahaniaethau ar draws ALlau. Ar y cyfan, roedd 54% o ddarparwyr yn fodlon ar y cymorth a gawsant gan yr ALl ar gyfer HoH. Nododd nifer bach o ddarparwyr iddynt gael cynnig cymorth a hyfforddiant gan yr ALl yn ystod HoH. Dywedodd llai fyth iddynt fanteisio ar y cynigion hyn. Er enghraifft, dywedodd 17% o ddarparwyr iddynt dderbyn cefnogaeth i ddatblygu eu polisïau; derbyniodd 14% hyfforddiant diogelu; derbyniodd 11% hyfforddiant cynhwysiad a hygyrchedd a chofiodd 9% dderbyn canllawiau Prif Swyddog Meddygol y DU ar gyfer gweithgarwch corfforol a ffeithlun cysylltiedig[15].

### Cyflwyno yn y dyfodol

5.12 Roedd darparwyr yn agored i redeg darpariaeth debyg yr haf nesaf (2022) gyda chyllid. Dywedodd tua dau draean (67%) o ddarparwyr y byddent yn cyflwyno y flwyddyn nesaf pe bai cyllid ar gael. Dim ond cyfran fach (6%) a ddywedodd y gallent gyflawni beth bynnag fo'r cyllid sydd ar gael[16]. Roedd eraill yn ansicr neu heb ymateb i'r cwestiwn.

[15] Arolwg darparwyr: ymgymryd â hyfforddiant a chymorth (n=249)
[16] Arolwg darparwyr: rhedeg darpariaeth debyg yr haf nesaf (n=249)

## 6. Profiadau plant a phobl ifanc


6.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno profiadau plant a phobl ifanc o'r rhaglen. Cyflwynir tystiolaeth o'r arolygon[17] a'r cyfweliadau â chyfranogwyr.

**Ffactorau ysgogi a galluogi i gymryd rhan**

6.2 Y ddwy brif ffordd y cafodd pobl wybod am y HoH oedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol (45%) neu gan bobl eraill (36%)[18].

6.3 Nododd yr arolwg cyfranogwyr mai'r prif ysgogiadau i fynychu HoH oedd: cael hwyl (83%) a chwarae a chymdeithasu gydag eraill (66%) fel y dangosir yn Ffigur 7. Dim ond 8% o'r ymatebwyr a soniodd am y cyfle i siarad Cymraeg fel cymhelliant i fynychu. Dywedodd cyfranogwyr y cyfweliad y byddent wedi bod gartref heb ddim i'w wneud heb sesiynau HoH. Iddynt hwy, roedd HoH yn rheswm dros fynd allan o'r tŷ.

**Ffigur 7: Ysgogiadau plant a phobl ifanc i fynychu HoH**




Sylfaen: 969. Ffynhonnell: Arolwg cyfranogwyr. Gallai cyfranogwyr ddewis sawl rheswm, felly mae'r canrannau dros 100%.

[17] Sylwer bod plant, pobl ifanc a rhieni/gofalwyr wedi cwblhau'r arolwg cyfranogwyr. Cwblhaodd 839 o rieni/gofalwyr ef gyda neu ar ran plentyn neu berson ifanc.
[18] Arolwg cyfranogwyr: Sut y clywsant am HoH (n=969)

6.4 Yn ogystal, nododd rhieni fod mynychu HoH wedi helpu plant i ailadeiladu eu hyder yn dilyn y pandemig.

> ‘Roedd fy merch yn edrych ymlaen at y grŵp cerddoriaeth bob wythnos. Dysgodd hi ganeuon y byddai'n eu canu o amgylch y tŷ, a'i helpodd i fagu ei hyder.’ *Rhiant*

6.5 Dangosodd yr arolwg mai rhieni a gofalwyr oedd y rhai allweddol yn gwneud penderfyniadau ynghylch plant a phobl ifanc yn mynychu HoH (50%), a dywedodd 35% o blant a phobl ifanc iddynt ddewis drostynt eu hunain[19].

6.6 Roedd teuluoedd ar incwm isel yn gwerthfawrogi'n fawr fod HoH am ddim, gan ei fod yn rhoi cyfle i rieni a phlant gymryd rhan mewn gweithgareddau haf.

> ‘[Byddwn yn] llythrennol yn sownd yn fy nhŷ. Does dim byd ar gyfer fy ystod oedran. Dydw i ddim yn gweithio, felly talu £5 am weithgareddau, byddwn i'n cael hynny'n anodd, alla i ddim fforddio gwneud hynny.’ *Person ifanc*

6.7 O ran cludiant, datgelodd yr arolwg fod ychydig o dan hanner (46%) o blant a phobl ifanc wedi cael lifft i weithgareddau HoH. Roedd y gweddill naill ai wedi cerdded (25%), gyrru (22%), defnyddio cludiant darparwyr (6%), cludiant cyhoeddus (6%) neu fynd ar feic (5%)[20]. O'r rhai a gyrchodd cludiant cyhoeddus dim ond 6% a gafodd ad-daliad o'u costau gan yr ALI[21]. Dywedodd cyfranogwyr a ddefnyddiodd gludiant darparwyr, ei fod yn galluogi iddynt gymryd rhan.

> ‘Does gen i ddim car ac mae'n anodd cadw trefn ar fy nau fab awtistig. Mae'r gweithgareddau wedi'u trefnu i ddiwallu anghenion fy mhlant a hefyd i roi cludiant codi a dychwelyd i mi, a oedd yn hynod o ddefnyddiol, nid wyf wedi cael haf fel hyn yn [fy ardal] o'r blaen, mae wedi bod yn wych.’ *Rhiant*

**Profiadau cyfranogwyr o ddarpariaeth HoH**

6.8 Roedd profiadau plant a phobl ifanc o HoH yn gadarnhaol iawn. Dywedodd bron pob un (99%)[22] o gyfranogwyr yr arolwg eu bod yn mwynhau cymryd rhan yn HoH.

---


[19] Arolwg cyfranogwyr: Penderfyniad i fynychu HoH (n=969)
[20] Arolwg cyfranogwyr: Modd cludiant (n=969)
[21] Arolwg cyfranogwyr: A yw costau cludiant cyhoeddus wedi'u talu (n=55)
[22] Arolwg cyfranogwyr: Mwynhau HoH (n=965)

‘Dysgodd [HoH] sgiliau newydd i mi y gallaf eu defnyddio yn ddiweddarach mewn bywyd, ac roedd yn llawer o hwyl!' *Plentyn/ person ifanc*

6.9 Cafodd y plant a'r bobl ifanc sawl cyfle i chwarae a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau. Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod y rhain yn eu helpu i gymdeithasu ac adeiladu eu sgiliau a'u hyder. Dangosir yr arolwg gweithgareddau y cymerodd cyfranogwyr ran ynddo yn Ffigur 8.

‘Fel arfer rwy'n mynd allan ar fy mhen fy hun i'r dref a phethau, ond yma mae mwy o bobl, mae'n brofiad cymdeithasol... cyn i mi ddod yma doedd gen i ddim ffrindiau. Roeddwn i braidd yn isel i fod yn onest, mae bod yma wedi helpu llawer.’ *Plentyn/ person ifanc*

**Ffigur 8: Gweithgareddau y cymerodd plant a phobl ifanc ran ynddynt, fesul math**




Sylfaen: 969. Ffynhonnell: Arolwg cyfranogwyr. Cymerodd y cyfranogwyr ran mewn gweithgareddau lluosog, felly mae'r canrannau dros 100%.

6.10 Dywedodd y plant, y bobl ifanc a'r rhieni iddynt hoffi'r amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd chwarae. Roedd y plant a'r bobl ifanc yn mwynhau'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol neu newydd.

‘Roedd yn gyfle i wneud rhywfaint o weithgaredd chwaraeon yn y môr mewn lleoliad diogel a hwyliog. Cafodd fy merch amser gwych yn dysgu sut i badlfyrddio gyda'i ffrindiau.’ *Rhiant*

6.11 Dangosodd ymatebion yr arolwg fod cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r dewis a’r amrywiaeth o weithgareddau awyr agored a dan do. Roedd hyn yn cynnwys chwaraeon o nofio a dringo i chwarae gyda balwnau dŵr a llinellau sip. Hefyd chwarae a gweithgareddau dan do fel gemau bwrdd, chwarae meddal, celf a chrefft, cerddoriaeth a theatr.

6.12 At hynny, pwysleisiodd y cyfranogwyr fod staff y darparwyr yn gyfeillgar ac yn creu amgylchedd croesawgar.

> ‘Gweithgareddau gwych. Rhywbeth gwahanol bob wythnos. Mae'r staff mor groesawgar gyda'r rhieni a'r plant. Maent yn chwarae'n wych gyda nhw ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cymryd rhan ym mhopeth. Chwarae a staff gwych.’ *Rhiant*

6.13 Roedd cyfranogwyr yn hoffi bod y gweithgareddau, ar y cyfan, yn gynhwysol ar gyfer gwahanol grwpiau oedran ac anghenion. Fodd bynnag, credai rhieni mewn rhai ALlau y gallai mwy o'r weithgareddau fod wedi bod yn well o ran cynnwys pobl ag anableddau.

> ‘Dim ond mewn un gweithgaredd y gallwn i gymryd rhan gan fy mod yn anabl, ond roedd yn gynhwysol iawn ac fe'm gwnaed i deimlo'n rhan o'r grŵp.' *Rhiant*

6.14 Roedd cyfranogwyr yn hoffi y gallent fynychu HoH gyda'u ffrindiau a'u teulu. Roeddent hefyd yn mwynhau'r cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu gyda phobl newydd ac i wneud ffrindiau newydd.

> ‘Roedd y gweithgareddau'n bethau na allwn eu gwneud fel arfer fel gwibdaith hamddenol ac roeddwn yn eu gweld yn gyffrous ac yn wahanol. Cwrddais â rhai pobl newydd a chael amser da gyda’r ffrindiau roeddwn i’n ’nabod yn barod.’ *Plentyn/person ifanc*

6.15 Roedd y cyfranogwyr yn gyffredinol yn canmol y rhaglen ac yn gobeithio y byddai'n cael ei rhedeg eto yr haf nesaf.

> ‘Mae'r gweithgareddau a ddarperir yn wych (ar gyfer pob oedran), staff cyfeillgar ac mae'n braf bod cylch o weithgareddau a rhywbeth gwahanol i'w wneud bob wythnos. Gobeithio y gallwn wneud hyn eto y flwyddyn nesaf gan ein bod ni'n edrych ymlaen ato!' *Rhiant*

### Awgrymiadau gan gyfranogwyr i wella HoH ymhellach

6.16 Roedd cyfranogwyr y rhaglen yn gadarnhaol iawn am eu profiadau, fel yr adlewyrchir yn eu hawgrymiadau i wella HoH. Awgrymwyd eu bod am gael mwy o weithgareddau, sesiynau amlach a hirach ac i HoH barhau y tu hwnt i'r haf. Awgrymodd y rhieni y byddai cynnwys bwyd wedi ychwanegu at eu profiadau a'u helpu i aros yn hirach mewn sesiynau. Awgrymodd rhai rhieni fod angen cynnig lle i rieni arsylwi neu gymryd rhan mewn gweithgareddau.

# 7. Deilliannau a manteision y rhaglen

7.1 Mae'r adran hon yn amlinellu deilliannau a manteision canfyddedig a hunangofnodedig HoH ar gyfer plant a phobl ifanc, teuluoedd, darparwyr lleol a'r gymuned ehangach. Mae'n defnyddio'r holl ddata o'r cyfweliadau a'r arolwg.

**Deilliannau i blant a phobl ifanc**

*Hwyl, chwarae a chymdeithasu*

7.2 Credai arweinwyr ALl fod y ddarpariaeth HoH wedi cyflawni'r deilliant o ddarparu hwyl i blant a phobl ifanc. Yn bwysig, cytunodd pobl ifanc, gyda 99%[23] o'r ymatebwyr i'r arolwg cyfranogwyr yn adrodd iddynt fwynhau eu gweithgareddau haf. Yn ystod y 18 mis blaenorol roedd plant wedi dioddef cyfnodau hir o gyfyngiadau, unigedd a diffyg cyfleoedd y tu allan i'r cartref oherwydd y pandemig COVID-19. Esboniodd uwch randdeiliaid ac arweinwyr ALl fel ei gilydd fod y pandemig wedi gwneud yr angen am hwyl a chwarae yn flaenoriaeth yr haf yma. Gwnaethant dynnu sylw at y ffaith y dylid ystyried bod cyfleoedd i gael hwyl, gwenu a chwarae yn ddeilliannau cadarnhaol pwysig bob haf, heb ystyried y pandemig.

> ‘Rwy'n gobeithio eu bod nhw’n hapus ac rwy'n gobeithio eu bod wedi cael llawer o hwyl ac mae beth bynnag sy'n dod allan o hynny'n iawn o'm rhan i, mae hynny'n ddeilliant ac yn un cadarnhaol.’ *Uwch randdeiliad, partner cenedlaethol*

7.3 Yng nghyd-destun COVID-19, mae'r ddarpariaeth HoH wedi galluogi ALlau i ddechrau taclo effaith negyddol y cyfyngiadau ar hawliau plant i chwarae a chymdeithasu. Roedd yn bwysig i randdeiliaid y bu cyfleoedd i blant a phobl ifanc fynychu darpariaeth a oedd yn canolbwyntio'n llwyr ar hwyl, yn hytrach na dysgu ffurfiol.

> ‘Y prif beth... yw eu bod yn cael rhywfaint o amser gyda'u grwpiau cyfeillgarwch, eu bod rywsut yn gallu adennill, magu'r hyder hwnnw a'r hunan-barch hwnnw. *Arweinydd ALl, gwledig*

[23] Arolwg cyfranogwyr: Mwynhau HoH (n=965)

7.4 Amlygwyd y gallu i gymdeithasu a gwneud ffrindiau fel deilliant gan yr holl randdeiliaid, gan gynnwys pobl ifanc. Roedd cyfran fawr o bobl ifanc (76%)[24] a ymatebodd i'r arolwg cyfranogwyr yn cytuno bod y gweithgareddau HoH wedi eu helpu i wneud ffrindiau newydd.

7.5 Adroddodd arweinwyr ALI fod y diffyg cymdeithasu dros gyfnod y pandemig, ynghyd â'r cyfyngiadau ar sut y bu'n rhaid i ysgolion weithredu dros y cyfnod[25] hwn, wedi effeithio'n negyddol ar sgiliau cyfathrebu a chymdeithasol rhai plant a phobl ifanc. Roeddent wedi gweld plant yn datblygu eu sgiliau iaith, cyfathrebu a rhyngbersonol yn ystod y ddarpariaeth HoH.

*Cyfleoedd i siarad Cymraeg*

7.6 Nid oedd pwysigrwydd datblygu sgiliau iaith yn gysylltiedig â COVID-19 yn unig, gan i arweinwyr ALlau gydnabod bod plant yn gyffredinol yn llai tebygol o ymarfer sgiliau Cymraeg dros yr haf. Mae gweithgareddau HoH wedi cynnig cyfle i rai plant a phobl ifanc gymdeithasu gan ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gwyliau'r haf; sy'n arbennig o bwysig i'r rhai o aelwydydd Saesneg eu hiaith.

*Cyfleoedd i roi cynnig ar weithgareddau newydd – meithrin hobïau a diddordebau*

7.7 Rhoddodd yr HoH gyfleoedd i blant a phobl ifanc na fyddent efallai wedi medru cael mynediad atynt fel arall. Yn bwysig, gan fod y ddarpariaeth yn rhad ac am ddim ar adeg mynediad, roedd y cyfleoedd hyn yn agored i bob person ifanc beth bynnag fo'u cefndir. Cytunodd y mwyafrif y bobl ifanc (94%)[26] a ymatebodd i'r arolwg cyfranogwyr fod gweithgareddau'r HoH wedi eu galluogi i roi cynnig ar weithgareddau newydd, a theimlodd 89% eu bod yn cael cyfle i ddysgu pethau newydd. Roedd y cyfle i roi cynnig ar bethau newydd yn golygu bod plant yn datblygu hobïau a diddordebau newydd a allai fod yn gynaliadwy y tu hwnt i'r ddarpariaeth. Er enghraifft, ar y cyd â llyfrgelloedd lleol, sefydlodd un ALI her ddarllen dros yr haf. I lawer o'r bobl ifanc, dyma'r tro cyntaf iddynt ymweld â llyfrgell gyhoeddus ac mae nifer wedi parhau i fynd i'r llyfrgell ar ôl i'r her ddod i ben.

---

[24] Arolwg cyfranogwyr: Gwneud ffrindiau newydd (n=879)
[25] Yn ystod y pandemig roedd ysgolion yn gweithredu'n rhithwir. Parhaodd ysgolion i fod ar agor i rai plant gan gynnwys plant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed.
[26] Arolwg cyfranogwyr: Rhoi cynnig ar weithgareddau newydd (n=878)

> ‘Mae'n mynd â phobl ifanc allan o'u parth cysur. Maen nhw'n cael gwneud pethau nad ydyn nhw erioed wedi'u gwneud. Maen nhw'n cael profi llwyddiant mewn ffordd nad oedden nhw'n meddwl yr oedd yn bosib.’ *Uwch randdeiliad, partner cenedlaethol*

*Gweithgarwch corfforol*

7.8 Dywedodd cyfran fawr o blant (88%)[27] fod HoH wedi eu helpu i fod yn fwy egnïol. Yn yr un modd, credai 49%[28] o ddarparwyr fod eu darpariaeth yn cefnogi cyfranogwyr i wella eu hiechyd corfforol.

7.9 Adroddodd pobl ifanc y byddai eu cyfleoedd heb yr HoH wedi bod yn gyfyngedig. Adroddwyd y byddent wedi treulio mwy o amser gartref ac y byddent wedi cael mwy o amser sgrin.

*Llesiant meddyliol*

7.10 Cafodd manteision y rhaglen o ran iechyd a llesiant meddyliol pobl ifanc eu cydnabod yn eang gan Arweinwyr ALlau. Mae'r gweithgareddau a'r cyfleoedd wedi galluogi pobl ifanc i ailgysylltu â'r hyn a gollwyd drwy'r gyfnodau clo ac ynysu; gan gynnig amser i blant a phobl ifanc ganolbwyntio ar chwarae, cael hwyl ac ymgysylltu â'u cyfoedion. Gofynnwyd i bobl ifanc 12 oed ac yn hŷn a oedd gweithgareddau'r HoH wedi eu helpu i reoli eu hiechyd meddwl, roedd 73%[29] yn cytuno.

> ‘Trwy gael hwyl a thrwy allu archwilio a gwneud yr holl bethau nad ydynt wedi gallu eu gwneud, bydd yn cael effaith fawr ar eu hiechyd a'u lles’. *Arweinydd ALl, trefol*

**Deilliannau i deuluoedd**

7.11 Roedd teuluoedd yn gwerthfawrogi'r cynigion HoH, gydag arweinwyr ALlau yn adrodd am ddeilliannau cadarnhaol i deuluoedd plant a phobl ifanc sy'n mynychu'r ddarpariaeth. Hwylusodd nifer o ALlau weithgareddau teulu cyfan; gan annog rhieni ac aelodau o'r teulu i gymryd rhan, gan ddod â nhw at ei gilydd gyda'r unig ddiben o gael hwyl. Lle'r oedd rhieni'n bresennol, mae'r gweithgareddau HoH wedi gwella

[27] Arolwg cyfranogwyr: Help i fod yn fwy egnïol (n=872)
[28] Arolwg darparwyr: Gwella iechyd corfforol cyfranogwyr (n=249)
[29] Arolwg cyfranogwyr: Helpu i reoli iechyd meddwl, gofynnwyd i bobl 12+ oed yn unig (n=864)

perthnasoedd teuluol drwy'r cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu cadarnhaol a chyfoethogi gweithgarwch. Adroddodd un Arweinydd ALI iddynt weld teuluoedd yn ymlacio pan oedd rhieni'n cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgaredd cynllun chwarae. Dechreuodd y rhieni efelychu ymddygiad y gweithwyr chwarae a mynd yn fwy chwareus gyda'u plant.

> ‘Roedd rhieni a oedd fel arfer ar eu ffonau bellach yn ymgysylltu. Maent yn gweld y rhyngweithio cadarnhaol hwnnw y mae'r plant yn ei gael ac yna'n sydyn, yn rhoi eu ffonau heibio, yn gadael iddynt baentio eu hwynebau a phethau felly.*’ Uwch randdeiliad, Llywodraeth Cymru*

7.12 Cyflwynodd yr HoH gyfle cyntaf i rai teuluoedd ail-ymgysylltu â'u cymuned leol yn dilyn y cyfnod clo. Dywedodd un ALI nad oedd rhiant a fynychodd eu digwyddiad dathlu teuluol wedi gadael y cartref am unrhyw beth heblaw cwblhau tasgau hanfodol ers dros 18 mis. Rhoddodd y digwyddiad hwn fu'n cydymffurfio â COVID-19 yr hyder i'r rhiant fod yn bresennol ac roedd wedi eu hannog i gymryd camau pellach i ail-ymgysylltu â'r gymuned.

7.13 Cynigiodd y ddarpariaeth HoH seibiant i rieni a gofalwyr o heriau'r pandemig, a chyfeiriwyd ati fel 'llinell fywyd' i rai teuluoedd. Mae cyfyngiadau'r pandemig yn golygu bod llawer o deuluoedd wedi profi newid yn eu hamgylchiadau gan gynnwys: caledi ariannol, newidiadau i drefn arferol y cartref a heriau iechyd meddwl. Mae arweinwyr ALI yn cydnabod yr oedd angen seibiant ar deuluoedd yr haf hwn, yn fwy nag erioed; roedd hyn yn berthnasol i bob teulu ledled Cymru. Yn olaf, roedd rhieni ac aelodau o'r teulu yn falch bod y plant yn gallu mynd allan o'r cartref yn ystod yr haf a chymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi.

**Deilliannau i ddarparwyr**

7.14 Mae'r cyllid HoH wedi cefnogi diwydiannau gan ddilyn cyfnodau hir o gyfnodau clo a chyfyngiadau; gan roi hwb economaidd y mae mawr ei angen i ddarparwyr lleol.

> ‘Rwy'n credu bod y sector gofal plant wedi cael cryn dipyn o ergyd yn ystod COVID, felly roedd hynny'n bwysig iawn ein bod yn gweithio gyda nhw... gweithio i gefnogi'r economi leol. A thrwy weithio gyda darparwyr lleol...

gobeithiwn y byddwn wedi eu cefnogi i allu bod ychydig yn fwy cynaliadwy.' *Arweinydd ALl, gwledig*

7.15 Mae'r cyllid HoH wedi caniatáu i ddarparwyr lleol ddenu cynulleidfaoedd newydd drwy'r ddarpariaeth am ddim. Y gobaith yw y bydd y blas y mae plant a theuluoedd wedi'i gael yn eu hannog i ymrestru mewn gwasanaethau a gweithgareddau lleol, yn ogystal â thalu am ddarpariaeth nas ariennir ar ôl i'r HoH ddod i ben, gan helpu darparwyr i ymadfer o effaith ariannol y pandemig. Yn fwy cyffredinol, drwy ddarparu'r HoH, mae darparwyr lleol wedi codi eu proffil yn eu cymunedau lleol.

7.16 Mae'r HoH hefyd wedi galluogi rhai darparwyr lleol i adeiladu capasiti a gwella ansawdd eu darpariaeth bresennol. Mae darparwyr wedi gallu cyrraedd mwy o bobl ifanc drwy'r gweithgareddau. Manteisiodd rhai darparwyr hefyd ar ddefnyddio'r arian i brynu offer ac i gymryd mwy o staff a gwirfoddolwyr ymlaen a'u hyfforddi dros yr haf. Mae ansawdd y ddarpariaeth hefyd wedi gwella, er enghraifft, mae un ALl wedi cefnogi rhai o'u darparwyr newydd gyda pholisïau diogelu ac asesiadau risg COVID-19 fel rhan o'r broses gynefino.

**Deilliannau i ardaloedd lleol**

7.17 Credid bod manteision yr HoH yn ymestyn y tu hwnt i'r plant a'u teuluoedd, i'r gymuned ehangach. Dywedodd arweinwyr awdurdodau lleol fod buddsoddiadau'r HoH yn helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'i fod yn rhoi 'teimlad da' i'r gymuned leol.

> ‘Os ydych chi'n byw mewn cymuned lle nad oes dim yn digwydd, rydych chi'n teimlo braidd yn ddiwerth... ond os ydych chi'n teimlo bod rhywun yn ymwybodol ohonoch chi ac eisiau eich cefnogi chi a rhoi rhywbeth i chi, yna rydych chi'n tueddu i ymateb yn well.’ *Arweinydd ALl, trefol*

**Cynaladwyedd a chymorth tymor hwy ar gyfer ymadfer yn sgil COVID-19**

7.18 Mae etifeddiaeth HoH yn amlwg o safbwynt darparwyr ac awdurdodau lleol. I lawer o randdeiliaid, y HoH oedd eu cyfle cyntaf i weithio ar y raddfa hon yn eu hardal. Gan fod awdurdodau lleol a darparwyr unigol bellach wedi profi y gallant gyflwyno a chyflawni canlyniadau, yr etifeddiaeth fydd y dyheadau a'r hyder y gellir ei wneud eto.

7.19 Roedd y cyllid hefyd wedi creu partneriaethau cydweithredol newydd rhwng yr awdurdodau lleol a'r darparwyr. Roedd y rhanddeiliaid yn gallu pwyso a mesur yr asedau yn eu hardal leol, gan gynnwys y mathau o ddarpariaeth leol a'u galluoedd a hyfforddiant a gwybodaeth aelodau staff.

> ‘Mae [HoH 2021] wedi gosod sylfaen dda iawn i ni, mae partneriaethau [yn] ehangach nawr ac rydyn ni'n gweithio gyda rhannau eraill o'r tîm a'r awdurdod lleol efallai na fyddem wedi'i wneud o'r blaen*.’ Arweinydd ALl, gwledig*

7.20 Nodwyd risgiau posib i etifeddiaeth y rhaglen. Cydnabu uwch randdeiliaid ac arweinwyr ALl fod disgwyliadau o ran darpariaeth haf wedi'u codi o ganlyniad i'r HoH. Mae perygl o rwystredigaeth gyhoeddus os na chaiff darpariaethau tebyg eu hariannu yn y dyfodol,

> ‘Bydd pobl yn disgwyl yr un ddarpariaeth y flwyddyn nesaf. Allwch chi ddim rhoi rhywbeth ar y bwrdd ac yna ei dynnu’n ôl.’ *Arweinydd ALl, trefol*

7.21 Tynnodd arweinwyr ALl sylw hefyd at yr angen am fuddsoddiad tymor hwy i weld effaith datblygu cymunedol.

> ‘Mae datblygu cymunedol yn cymryd amser. Allwch chi ddim bod yno am un haf ac yna dod yn ôl am haf arall. Yr oedd yn lefel fawr o arian, bydd ceisio cynnal y lefel honno o weithgarwch heb y cyllid yn her. Mae'r rhaglen hon yn rhoi tystiolaeth i ni o sut mae gweithgareddau fel hyn a chwarae, o fudd i blant, pobl ifanc a theuluoedd.” *Arweinydd ALl trefol/gwledig*

7.22 Er bod 43% o ddarparwyr o'r farn bod y rhaglen HoH wedi cyflawni ei huchelgais i gefnogi ymadfer yn sgil COVID-19 ymhlith plant a phobl ifanc, roedd darparwyr hefyd yn argymell cyllid parhaus i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw gydag effeithiau hirdymor y pandemig gan gynnwys diweithdra, tlodi ac iechyd meddwl gwael ymhlith plant ac oedolion.

## 8. Argymhellion gan gyfranogwyr

8.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno argymhellion ar gyfer rhaglenni gwyliau yn y dyfodol. Daw gwybodaeth o gyfweliadau, arolygon a thrafodaethau o'r ford gron.

8.2 **Argymhelliad 1: Cadw'r ffocws ar hwyl a chwarae**

- Roedd uwch randdeiliaid ac ALlau o'r farn bod y ffocws ar hwyl a chwarae yn hanfodol i gefnogi deilliannau cadarnhaol o ran iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc a dylid eu cadw.

8.3 **Argymhelliad 2: Buddsoddiad tymor hwy**

- Argymhellodd yr holl grwpiau cyfranogwyr fuddsoddiad parhaus mewn darpariaeth gydol flwyddyn ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys gyda'r hwyr, ar benwythnosau a gwyliau. Byddai cyllid tymor hwy hefyd yn helpu i recriwtio a chadw staff ALl a darparwyr i gefnogi cynllunio a darparu rhaglenni.

8.4 **Argymhelliad 3: Cynnwys darpariaeth bwyd**

- Byddai ALlau a darparwyr wedi hoffi darparu lluniaeth ysgafn, fel cymhelliad i rai teuluoedd fynychu. Cymeradwyodd cyfranogwyr y rhaglen yr awgrym hwn hefyd.

8.5 **Argymhelliad 4: Amser i gynllunio a sefydlu**

- Roedd consensws bod angen digon o amser rhwng cyhoeddi cyllid a lansio'r rhaglen. Byddai hyn yn cefnogi cynllunio strategol effeithiol a fyddai'n ymwneud ag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys ysgolion a datblygu arfer blaengar. Gellid defnyddio'r amser i ymgynghori â phartneriaid, a phlant a phobl ifanc, i helpu i lunio'r ddarpariaeth.

8.6 **Argymhelliad 5: Cryfhau'r gefnogaeth i ALlau**

- Yn gyffredinol, roedd ALlau ac uwch randdeiliaid o blaid canllawiau hyblyg, i alluogi ALlau i ddiwallu hanghenion eu poblogaeth leol. Awgrymwyd ystyriaethau ar gyfer canllawiau yn y dyfodol: a ellir defnyddio'r cyllid ar gyfer gofal plant; a yw'r cyllid ar gyfer darpariaeth mynediad agored neu wedi'i thargedu; nad oes rheidrwydd ar ALlau i ariannu darparwyr a awgrymir.

- Roedd rhai uwch randdeiliaid o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag ALlau i fapio'r ddarpariaeth bresennol cyn dyrannu cyllid, er mwyn osgoi dyblygu a blaenoriaethu gweithgareddau gwerth ychwanegol.
- Croesawyd y sesiynau ymgysylltu ar-lein a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd ALlau am gael cyfleoedd i glywed beth oedd ALlau eraill yn ei gynllunio ac i rannu dysgu. Roedd awgrymiadau ar gyfer gwella yn cynnwys rhannu'r un llwyfan cyfathrebu.
- Nid oedd rhai ALlau a darparwyr yn defnyddio brand y rhaglen (logo Llywodraeth Cymru a'r hashnod #hafohwyl). Argymhellodd ALlau fuddsoddi mewn brand y gellir ei ddefnyddio yn y tymor hir a chynnig cymorth i sicrhau y caiff ei ddefnyddio.
- Nododd rhai ALlau fod prosesau adrodd y rhaglen (cynigion, gwybodaeth reoli a gweithgareddau gwerthuso) yn feichus. Awgrymwyd y gellid symleiddio'r rhain. Argymhellodd ALlau y dylai gweithgareddau ac offer gwerthuso (e.e., arolygon) fod wedi'u cyfathrebu yn y canllawiau i ALlau, er mwyn sicrhau bod darparwyr yn ymwybodol o'r gofynion manwl wrth eu penodi. Roedd ALlau o'r farn y dylai fod ganddynt fynediad at ddata arolwg cyfranogwyr a darparwyr er mwyn defnyddio gwybodaeth ar lefel yr ALl yn eu dysgu lleol.

8.7 **Argymhelliad 6: Mireinio penodi darparwyr, y cymorth a roddir a'r cyflwyniad**

- Argymhellodd uwch randdeiliaid y dylai rhaglenni yn y dyfodol gefnogi cyfranogiad darparwyr cenedlaethol yn well heb fod angen ymdrin â phrosesau 22 o ALlau gwahanol.
- Trafododd arweinwyr ALl sut yr oedd rheoli sicrhau ansawdd wrth benodi darparwyr ac yn ystod y ddarpariaeth yn heriol o ran yr amserlen, yn enwedig ar gyfer timau ALlau bach. Argymhellodd uwch randdeiliaid sy'n cynrychioli darparwyr cofrestredig y dylid ffafrio darparwyr cofrestredig yn y dyfodol, gan eu bod yn bodloni safon ansawdd uchel. Dywedodd rhai ALlau y gallai'r niferoedd llai o bobl ifanc (oherwydd cyfyngiadau COVID-19) fesul grŵp, fod wedi arwain at ddarpariaeth o ansawdd gwell; o'i gymharu â llai o ddarpariaethau gyda nifer fwy o gyfranogwyr.

- Awgrymodd rhieni y dylai fod gan ddarparwyr le i rieni arsylwi neu gymryd rhan yn y ddarpariaeth.

8.8 **Argymhelliad 7: Gwella cyrhaeddiad a chynwysoldeb**

- Thema ymhlith uwch randdeiliaid, ALlau a darparwyr oedd bod y **cyllid yn annigonol** ar gyfer cynnig gwirioneddol gyffredinol, ac roedd pryder ymhlith ALlau ynghylch a oedd o fudd i'r rhai mwyaf agored i niwed.
- Tynnodd uwch randdeiliaid ac arweinwyr ALl sylw at bwysigrwydd **darpariaeth am ddim**, yn enwedig i deuluoedd incwm isel, i leddfu'r baich ariannol yn ystod y gwyliau ac i gefnogi lles. Argymhellodd ALlau a darparwyr yr angen am **gadw cyllid ar gyfer cludiant** er mwyn galluogi cymryd rhan.
- Defnyddiodd y rhan fwyaf o ALlau **system archebu** i bobl archebu lleoedd ar weithgareddau HoH; ochr yn ochr â neilltuo gweithgareddau ar gyfer grwpiau targed sy'n agored i niwed. Cydnabu ALlau nad oes modd i rai teuluoedd archebu ymlaen llaw a bu ofn na chyrhaeddwyd grwpiau mwy agored i niwed. Awgrymwyd y dylai darpariaeth yn y dyfodol ystyried ffyrdd o reoli'r risg bosib hon yn y rhaglen.
- Dangosodd gwybodaeth reoli fod y **rhai 16 oed a hŷn** yn llai tebygol o gymryd rhan. Trafododd arweinwyr ALl hefyd sut yr oedd y grŵp hwn yn anos ei gyrraedd ac ymgysylltu ag ef. Roedd yr awgrymiadau ar gyfer ennyn eu diddordeb yn cynnwys: cynnal gweithgareddau prynhawn neu gyda'r hwyr, Gwaith Ieuenctid, cynnig cyfleoedd gwirfoddoli, mentora a phrofiad gwaith. At hynny, darpar bartneriaid a awgrymwyd oedd darparwyr cenedlaethol sydd ag arbenigedd mewn ymgysylltu â grwpiau dros 16 oed, megis Dug Caeredin. Argymhellodd uwch randdeiliaid sy'n cynrychioli'r sector Gwaith Ieuenctid y dylai'r Gweinidog dros Waith Ieuenctid fod yn rhan o ddylunio rhaglenni yn y dyfodol.
- Ystyriodd pob arweinydd ALl ddarpariaeth briodol ar gyfer **pobl ag anghenion ychwanegol ac anableddau**. Fodd bynnag, adroddodd rhieni mewn rhai ALlau nad oedd y ddarpariaeth yn addas ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol ac

anableddau. Felly, dylai darpariaeth yn y dyfodol ystyried ffyrdd o gefnogi ALlau a darparwyr i gynnig darpariaeth gynhwysol.

- Pennwyd cynnwys **darpariaeth cyfrwng Cymraeg** yng nghanllawiau'r rhaglen. Nododd rhai arweinwyr ALl ddiffyg darparwyr lleol â sgiliau iaith Gymraeg a diddordeb cyfyngedig ymhlith plant, pobl ifanc a theuluoedd ar gyfer darpariaeth Gymraeg. Argymhellodd uwch randdeiliaid fod angen sicrhau darpariaeth Gymraeg ddigonol mewn rhaglenni yn y dyfodol.

## 9. Casgliadau

9.1 Cyrhaeddwyd dros 67,500 o blant a phobl ifanc gan raglen HoH 2021 ledled Cymru. Dywedodd bron pob un (99%) o'r plant a'r bobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg cyfranogwyr eu bod wedi cael hwyl. Mae hyn yn awgrymu bod y rhaglen wedi cyflawni ei hamcan o ddarparu gweithgareddau hwyliog i blant a phobl ifanc yn ystod haf 2021.

9.2 Adroddodd ALlau fod yr arian yn cynnig ychwanegedd at ddarpariaeth busnes-fel-arfer. Gwnaeth ALlau benderfyniadau pragmatig ac effeithlon am eu model cyflwyno o fewn y canllawiau a'r amserlenni a oedd ar gael ar gyfer cynllunio. Mabwysiadodd ALlau un o dri model cyflwyno. Dewisodd y rhan fwyaf o ALlau gynnig mynediad agored ac wedi'i dargedu (Model 1) tra bod rhai ALlau wedi dewis mynediad agored yn bennaf (Model 2) neu gynnig wedi'i dargedu'n gyfan gwbl (Model 3).

9.3 Roedd cyrhaeddiad cyffredinol y rhaglen yn fawr, yn enwedig o ystyried yr amserlenni byr a fu i'w chynllunio, ei lansio a'i hyrwyddo. Fodd bynnag, mae amrywiadau mewn modelau cyflwyno ALlau ynghyd â data gwybodaeth reoli yn awgrymu nad oedd gan y rhaglen HoH gyrhaeddiad cyffredinol ledled Cymru.

9.4 Er i ALlau a darparwyr ystyried sut i greu rhaglenni cynhwysol a oedd yn hyrwyddo cyfle cyfartal, hygyrchedd a darpariaeth cyfrwng Cymraeg, nodwyd bylchau mewn cyrhaeddiad ar gyfer grwpiau demograffig penodol. Roedd tystiolaeth o anghenion posib nas diwallwyd ar gyfer grwpiau oedran 16-25 a phlant ag ADY ac anableddau. At hynny, roedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gymharol isel. Roedd y rhan fwyaf o ALlau yn ei chael hi'n anodd gwybod sut i ennyn diddordeb grwpiau oedran hŷn orau ac yn croesawu syniadau ar sut i'w cyrraedd. Nododd arweinwyr ALl mewn rhai ardaloedd ddiffyg darparwyr arbenigol i ddarparu ar gyfer y rhai ag anghenion ychwanegol neu staff â sgiliau iaith Gymraeg.

9.5 Cafodd y gweithgareddau a gyflwynwyd eu derbyn yn gadarnhaol bron yn unfrydol gan gyfranogwyr y rhaglen. Awgryma canfyddiadau'r gwerthusiad fod y rhaglen HoH wedi cyflawni ei nod o ddarparu cyfleoedd chwarae hwyliog i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Bu consensws ar draws cyfranogwyr gwerthuso fod gweithgareddau

HoH yn cefnogi amrywiaeth o ddeilliannau a manteision i blant, pobl ifanc a theuluoedd, darparwyr, cymunedau lleol ac ALlau.

9.6 Helpodd cyfranogiad plant a phobl ifanc i ddechrau mynd i'r afael â rhai o effeithiau negyddol y pandemig, gan gynnwys cynyddu gweithgarwch corfforol, cefnogi eu hiechyd meddwl, ac ymgysylltu eto â'u cymunedau. Manteisiodd darparwyr ar fuddsoddiad ariannol yr oedd mawr ei angen yn dilyn y cyfnodau clo a datblygwyd perthnasoedd gyda phlant a phobl ifanc newydd. Credai arweinwyr ALl fod cymunedau'n teimlo'n gadarnhaol am y buddsoddiad ynddynt hwy a'u plant. Un deilliant anfwriadol posib yw bod HoH wedi codi disgwyliadau cymunedau lleol o gael rhaglen debyg y flwyddyn nesaf.

9.7 Croesawyd y rhaglen gan randdeiliaid cenedlaethol a lleol. Bu iddynt alw am gyllid hirdymor parhaus i ddarparu cymorth parhaus ar gyfer ymadfer yn sgil COVID-19. Roedd ALlau a darparwyr wedi datblygu dysgu defnyddiol o gyflwyno yn 2021, gan ddarparu sail a sylfaen gref ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

**Adran gyfeiriadau**

Comisiynydd Plant Cymru (2020) Coronafeirws a Fi.

Cullinane, C. a Montacute, R. (2017) Life lessons: Improving essential life skills for young people.

Ymddiriedolaeth Sutton (2014) Extra-curricular Inequality Research Brief.

## Atodiad A Model rhesymeg

Datblygwyd y model rhesymeg rhaglen lefel uchel hwn fel rhan o'r gwerthusiad, ond ar ôl i'r rhaglen gael ei chyflwyno.

### Mewnbynnau

- **Canllawiau'r rhaglen**
- **Model cyflwyno** (Am ddim i'w gyrchu, hyblygrwydd lleol: mynediad agored neu dargedu)
- **Model cyllid** (costau gweinyddol, costau cludiant)
- **Arweinwyr ALI** (Cynlluniau lleol; mapio darpariaeth bresennol a newydd; arweinyddiaeth; cydlynu; arweiniad)
- **Darparwyr** (Cais am gyllid, arweinyddiaeth, cydlynu, canllawiau; staff/gwirfoddolwyr; gwybodaeth reoli)
- **Lleoliadau/cyrchfannau**
- **Cynllunio** (Amser, staff/rhieni, rheoli risg)

### Gweithgareddau

- **Cynllun darpariaeth leol**
- **Grŵp llywio** (Sefydlu, cyfarfodydd, cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau lleol)
- **Polisïau a gweithdrefnau** (Diogelu, iechyd a diogelwch, yswiriant, hygyrchedd/cynhwysol)
- **Dyfarnu cyllid** (darpariaeth ALI neu gaffael darpariaeth)
- **Cefnogaeth ehangach** (Cyllid o ffynonellau eraill)
- **Hyrwyddo darpariaeth**
- **Model darpariaeth** (Darpariaeth ar gyfer grwpiau oedran 0-25, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer ADY ac anableddau, darpariaeth Gymraeg)
- **Cymorth parhaus i ddarparwyr** (Sicrhau ansawdd)
- Adeiladu **partneriaethau** lleol a rhannu arfer da
- **Gwirfoddoli**

### Allbynnau

- Darparu **mynediad am ddim** i weithgareddau rhyngweithiol a chreadigol (gan gynnwys hamdden, chwaraeon a diwylliannol, y celfyddydau, awyr agored)
- Darparu gweithgareddau ar gyfer **grwpiau oedran 0-25 a theuluoedd**
- Mynegiant drwy **chwarae**, cyfle i chwarae/**cymdeithasu** â chyfoedion
- Cymorth i'r rhaglen

### Deilliannau

**Plant a phobl ifanc**

- Cefnogi ymadfer yn sgil Covid-19
- Gwella lles corfforol
- Gwella lles cymdeithasol, emosiynol a meddyliol
- Rhoi gynnig ar weithgareddau newydd, datblygu diddordebau a sgiliau newydd
- Mwy o weithgareddau ar gael dros yr haf i bob person 0–25 oed
- Yn ddiogel a heb fod wedi'i ynysu'n gymdeithasol
- Gwella ail-ymgysylltu â dysgu ac addysg

**Teuluoedd / rhieni**

- Gwella argaeledd opsiynau darpariaeth gwyliau

**Atodiad B Offer cywain data**

**Uwch randdeiliaid  canllaw i bynciau'r cyfweliad**

## Y Cefndir i'r Haf o Hwyl

- Rolau a chyfrifoldebau
    - Rôl swydd, sefydliad, (braslun o) gyfrifoldebau
    - Cyfranogiad yn yr Haf o Hwyl a/neu sut mae'n cyd-fynd â'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli
- Trosolwg o'r rhaglen a'r model ariannu
    - Pam mae ei angen yn awr
    - Yr hyn yr ydych yn ei ddeall i fod yn amcanion strategol y rhaglen
    - Sut y bwriedir iddo weddu i fentrau ymadfer yn sgil Covid-19 eraill

## Dylunio a sefydlu'r rhaglen

- Sut y bwriedir gweithredu'r rhaglen ledled Cymru
- Rôl ALlau
    - Canllawiau a gwybodaeth i ALlau a darparwyr – Beth a ddarparwyd? Sut a phryd y cafodd gwybodaeth ei chyfathrebu? Sut yr ymatebodd ALlau?
    - Archwilio gwerth rhoi hyblygrwydd i ALlau o'i gymharu â dull rhagnodol
- Grwpiau targed
    - Pwy y mae'n anelu at ei gyrraedd? Pam?
    - Sail resymegol dros ddarpariaeth ar draws yr ystod oedran 0-25
    - Cyfradd cymryd rhan ddisgwyliedig
    - Ystyriaethau o ran hygyrchedd a darpariaeth gynhwysol (e.e., PPI du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, PPI ag anghenion ychwanegol, darpariaeth Gymraeg)
- Gweithgareddau
    - Pa weithgareddau sydd o fewn / y tu allan i gwmpas ar gyfer HoH? Pam?
    - Beth sy'n newydd/gwahanol am HoH o'i gymharu â darpariaeth gwyliau bresennol a blaenorol?
    - Pa fylchau, os o gwbl, sy'n parhau yn y ddarpariaeth gwyliau?
- Deilliannau disgwyliedig ac ar gyfer pwy
    - Sut y bydd o fudd i blant, pobl ifanc, teuluoedd ac ardaloedd lleol

## Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

- Myfyrio ar ddatblygiad y rhaglen Haf o Hwyl
    - Materion/gwersi allweddol a ddysgwyd wrth ddatblygu a sefydlu'r rhaglen Haf o Hwyl
    - Profiadau o waith cydgysylltiedig gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac uwch randdeiliaid o chwaraeon, y celfyddydau a diwylliant
    - Myfyrio ar sut i gefnogi ALlau/darparwyr wrth sefydlu darpariaeth gwyliau
    - Amserlenni a ddarparwyd (ar lefelau strategol ac ALl) i sefydlu'r rhaglen
    - Cyd-destun Covid-19
- Argymhellion ar gyfer darpariaeth gwyliau yn y dyfodol
    - Polisi ac arfer cenedlaethol / lleol
    - Cefnogi ALlau / darparwyr

**Arweinydd ALl   canllaw i bynciau'r cyfweliad**

## Y Cefndir i'r Haf o Hwyl

- Rolau a chyfrifoldebau
    - Enw'r ALl, Rôl y swydd
    - Braslun o gyfrifoldebau fel arweinydd yr Haf o Hwyl

## Dylunio a sefydlu'r rhaglen

- Trosolwg o sut y trefnodd eich ALl y rhaglen Haf o Hwyl
    - Gwiriwch enw/brandio lleol yr Haf o Hwyl (mae gan rai ALlau enwau lleol gwahanol)
    - Cyd-destun lleol / ystyriaethau allweddol (e.e., anghenion y boblogaeth leol)
    - Pwy o blith y partneriaid ALl / lleol sy'n ymwneud â chynllunio / cyflwyno
    - Cyfranogiad plant, pobl ifanc a theuluoedd wrth gynllunio pa weithgareddau y dylid eu cynnig
    - Sut mae'r model yn cyd-fynd â dulliau blaenorol yr ALl o gydgysylltu darpariaeth gwyliau
    - Sut mae'r Haf o Hwyl yn ategu mentrau ymadfer yn sgil Covid-19 eraill – yn enwedig gweithgarwch corfforol a gweithgareddau chwaraeon
- Cyfathrebiadau a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru
    - Cyfathrebiadau / cefnogaeth a dderbyniwyd e.e., cymorthfeydd ar-lein, canllawiau ysgrifenedig
    - A yw'r rhain wedi bod yn fuddiol / defnyddiol
    - A oes unrhyw fylchau yn yr wybodaeth / cymorth
    - Awgrymiadau ar sut i wella

## Cyflwyno'r rhaglen

- Gweithgareddau [Cyfwelydd: cyfeiriwch at gynlluniau lleol a theilwrwch y cwestiynau]
    - Pa weithgareddau y mae'r ALl yn eu rhedeg
        - Beth sydd ar gael ar draws yr ystod oedran 0-25?
        - A oes gweithgareddau ar gael trwy gydol y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi?
    - Lleoliadau y gweithgareddau – ysgolion, lleoliadau cymunedol, yn yr awyr agored
    - Pam y dewiswyd gweithgareddau/lleoliadau penodol
    - Darpariaeth cludiant
    - Beth sy'n newydd/gwahanol am HoH o'i gymharu â darpariaeth gwyliau bresennol a blaenorol?
    - Pa fylchau, os o gwbl, sy'n parhau yn y ddarpariaeth gwyliau?
- Darparwyr
    - Y broses gaffael – e.e., rhaniad y darparwyr newydd a'r rhai presennol
    - Y cymorth y mae'r ALl yn ei gynnig i ddarparwyr – beth sydd ar gael?
    - Prosesau sicrhau ansawdd – e.e., gwiriadau ar hap?
    - Cyfleoedd i ddarparwyr rannu dysgu / arfer da – amlder a fformat y rhain?
    - Heriau/ beth sydd wedi gweithio'n dda – wrth baratoi darparwyr ar gyfer yr Haf o Hwyl

- Grwpiau targed
  - Pwy ydych chi'n anelu at eu cyrraedd? Pam?
  - Nifer y bobl sy'n manteisio ar y cyfle a'r gyfradd cymryd rhan ddisgwyliedig
  - Sut bydd yr ALl yn gwybod a gyrhaeddwyd y grwpiau targed?
  - Ystyriaethau o ran hygyrchedd a darpariaeth gynhwysol (e.e., grwpiau oedran hŷn, PPI sydd ag anghenion ychwanegol, darpariaeth Gymraeg)
- Marchnata / brandio
  - Dulliau hyrwyddo/ymgysylltu y mae'r ALl/darparwyr yn eu defnyddio i gyrraedd PPI/teuluoedd er mwyn annog defnyddio'r gweithgareddau
  - Dulliau mwy/llai llwyddiannus ac ar gyfer pa grwpiau o PPI
  - A allant rannu deunyddiau marchnata gydag Ecorys (drwy e-bost ar ôl y cyfweliad)?
- Cyflwyno
  - A yw'r cyflwyniad yn rhedeg fel a ddisgwyliwyd / a fwriadwyd?
  - Beth fu'r rhwystrau / galluogwyr allweddol i weithredu
  - A yw'r HoH yn dderbyniol i PPI / yr ALl
- Deilliannau disgwyliedig ac ar gyfer pwy
  - Sut y bydd o fudd i blant, pobl ifanc, teuluoedd ac ardaloedd lleol
    - Deilliannau tymor byr a thymor hwy
    - Adfer yn sgil COVID-19
    - Lefelau gweithgarwch corfforol
    - Llesiant cymdeithasol, emosiynol a meddyliol
    - Paratoi ar gyfer yr ysgol/dysgu
    - Gwahaniaethau o ran deilliannau fesul grwpiau pobl ifanc (oedran, rhyw, ethnigrwydd, etc)
    - Arall
- Canfyddiadau am etifeddiaeth bosib o ran darpariaeth gwyliau lleol / lleol – e.e., offer, adnoddau, dull o gynllunio darpariaeth gwyliau

### Gwersi a ddysgwyd ac argymhellion

- Myfyrio ar gynllunio / cyflwyno'r rhaglen Haf o Hwyl
  - Materion/gwersi allweddol a ddysgwyd wrth ddatblygu'r rhaglen Haf o Hwyl
  - Beth sydd wedi gweithio'n dda / llai da wrth weithredu'r HoH
  - Amserlenni ar gyfer sefydlu'r ddarpariaeth
  - Cyd-destun Covid-19
- Argymhellion ar gyfer darpariaeth gwyliau yn y dyfodol
  - Polisi cenedlaethol - cefnogi ALlau
  - Polisi ac arfer lleol – cefnogi darparwyr
- Gwiriwch a oes unrhyw beth arall yr hoffai'r ALl ddweud wrthym am HoH

**Plant a Phobl Ifanc  canllaw i bynciau'r cyfweliad**

## Cefndir

- Beth yw dy enw di?
- Beth yw dy oedran di?/ Pa mor hen wyt ti?
- Oeddet ti'n mynd i [enw'r clwb/lle] cyn yr haf yma?
    - Sut wnest ti glywed amdano yn y lle cyntaf?
    - Pan glywaist ti dy fod di'n mynd iddo, pa fath o le oeddet ti'n disgwyl?
    - Pa mor aml/pryd wyt ti wedi bod yn mynd [yma/i enw'r clwb/lle]?
    - A oes unrhyw frodyr/chwiorydd/ffrindiau yn mynd hefyd?
- Wyt ti wedi mynd i unrhyw glybiau/gweithgareddau tebyg eraill?
    - Pa rai a phryd oedd hynny?

## Rheswm dros fynd

- Pwy benderfynodd y dylet ti fynd i [enw'r clwb/gweithgaredd] yr haf yma?
    - Pam oeddet ti/roedden nhw'n meddwl y dylet ti fynd i [enw'r clwb/gweithgaredd]?
    - A oedd unrhyw resymau efallai pam na fyddai modd i ti fynd / na fyddet ti eisiau mynd i [enw'r clwb/gweithgaredd]? <u>Holwch</u>: enghreifftiau a manylion fel logisteg, lefel o ddiddordeb, gwirio a oedd cludiant neu gostau cludiant wedi eu cynnig etc
- Beth fyddet ti wedi'i wneud yr haf yma yn hytrach na mynd i [enw'r clwb/gweithgaredd]?

    <u>Holwch</u>: am enghreifftiau a manylion

## Meddyliau am y clwb/gweithgaredd

[Cyfwelydd: rhannwch daflenni PAR sy'n briodol i oedran os yw'n briodol er mwyn hwyluso trafodaeth]

- Beth wyt ti'n meddwl am [enw'r clwb/gweithgaredd]?
    - Beth wyt ti'n hoffi?
    - Beth dwyt ti ddim yn ei hoffi?
- Yn ystod dy amser yn [enw'r clwb/enw'r gweithgaredd], wyt ti wedi…?
    - Gwneud unrhyw weithgareddau? E.e. ymarfer corff, chwaraeon, crefftau, pethau diwylliannol, ymweliadau dydd, gwirfoddoli- i bobl ifanc hŷn yn unig
    - Wyt ti wedi mynd ar unrhyw deithiau?
    - Wyt ti wedi dysgu unrhyw beth newydd?
- Beth wyt ti'n meddwl am y bobl sy'n rhedeg [enw'r clwb/gweithgaredd]?
    - Beth sy'n dda/ddim yn dda am y bobl/arweinwyr/hyfforddwyr?
- Sut mae [enw'r clwb/gweithgaredd] yn cymharu â…
    - Chlybiau/gweithgareddau haf eraill rwyt ti wedi mynd iddyn nhw?
    - Gweithgareddau eraill efallai y byddet ti wedi'u gwneud yr haf yma?
    - Oedd e fel yr oeddet ti'n disgwyl?
- Os gallet ti newid unrhyw beth, beth fyddet ti'n newid?
    - **Gweithgareddau -** a oes unrhyw beth yr hoffet ti wneud mwy/llai ohono?
    - **Lle-** a oes unrhyw beth y byddet ti'n ei newid am ble mae'n cael ei redeg?
    - **Pobl/Arweinwyr-** a oes unrhyw beth y byddet ti'n newid am y ffordd y mae'r bobl yn rhedeg y clwb/gweithgaredd hwn?

- Pa fath o bethau hoffet ti eu gwneud yn y dyfodol?

### Canlyniadau

- Pa wahaniaeth y mae mynd i [enw'r clwb/gweithgaredd] wedi'i wneud…?
  - I ti
  - I dy deulu
- Beth wyt ti wedi'i ddysgu/ennill, os o gwbl, o ganlyniad i ddod i [enw'r clwb/gweithgaredd]?
  - **Cael hwyl** (Holwch am enghreifftiau)
  - Cael cyfle i **siarad Cymraeg**
  - **Sgiliau newydd** (<u>Holwch</u> am ychwanegedd- a oeddent yn brofiadau na fyddent wedi'u hennill heb y rhaglen?)
  - **Cwrdd â phobl** / cyfeillgarwch newydd (<u>Holwch</u> am leihau unigrwydd ac arwahanrwydd drwy gwrdd â phobl eraill)
  - **Profiadau newydd** (<u>Holwch</u> am ychwanegedd - a oeddent yn brofiadau na fyddent wedi'u hennill heb y rhaglen?)
  - **Iechyd a lles** (12+ oed yn unig - <u>Holwch</u> am gynnal neu wella iechyd corfforol a meddyliol)
  - A fyddi di'n gwneud mwy o'r gweithgareddau rwyt ti wedi'u gwneud yma yn y dyfodol? (e.e. parhau i wneud campau penodol)
- Beth, os o gwbl, byddi di'n dweud wrth dy ffrindiau/teulu am [enw'r clwb/gweithgaredd] pan fyddi di'n gweld nhw?
  - Beth fyddan nhw'n meddwl am hynny, yn dy farn di?
- Oes unrhyw beth arall yr hoffet ti ddweud cyn i ni orffen?

**Arolwg cyfranogwyr**

Dywedwch wrthym pwy sy'n cwblhau'r holiadur

| | |
|---|---|
| **Fi (plentyn / person ifanc)** | ◻ |
| **Rhiant/gofalwr** | ◻ |
| **Darparwr y gweithgareddau** | ◻ |
| **Arall (Nodwch)** [Opsiwn teipio i mewn] | ◻ |

## Amdanoch chi

1. **Faint yw eich oed chi?** (Dewiswch un ateb)
2. **Beth yw eich rhywedd?** (Dewiswch un ateb)

| | |
|---|---|
| **Bachgen / Gwryw** | ◻ |
| **Merch / Benyw** | ◻ |
| **Arall** [Opsiwn teipio i mewn] | ◻ |
| **Mae'n well gennyf beidio â dweud** | ◻ |

## Ynghylch y gweithgareddau haf

Mae gweddill y cwestiynau'n ymwneud â'r gweithgareddau haf rydych chi'n cymryd rhan ynddynt. Os nad ydych chi'n siŵr beth mae hyn yn ei olygu gofynnwch i riant neu aelod o staff i helpu esbonio.

3. **Beth yw enw'r darparwr gweithgareddau haf rydych chi'n mynd iddo?** (Teipiwch eich ateb yn y blwch isod)




4. **Ydych chi wedi mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau?** (Dewiswch un ateb)

Ydw, llawer 😃 Ydw, ychydig 🙂 Na, ddim llawer 🙁 Na, ddim o gwbl ☹️

5. **Beth oeddech chi'n ei hoffi am y gweithgareddau?** (Teipiwch eich ateb yn y blwch isod)



6. **Beth fyddai'n gwneud y gweithgareddau'n well?** (Rhowch eich ateb yn y blwch isod.)

7. **Pa rai o'r gweithgareddau haf canlynol ydych chi wedi cymryd rhan ynddynt?** (Dewiswch gynifer o atebion ag sydd angen)


| | | |
|---|---|---|
|  Chwaraeon neu weithgarwch corfforol awyr agored |  Chwaraeon neu weithgarwch corfforol dan do |  Celf a chrefft |
|  Gemau (cwisiau, gemau bwrdd ac ati) nad ydynt yn weithgaredd corfforol |  Gofal plant |  Cynllun chwarae mynediad agored neu waith chwarae |
|  Coginio |  Mynd i leoedd (llyfrgell, amgueddfa ac ati.) |  Hyfforddiant neu addysg |
|  Gwirfoddoli | Arall [Opsiwn teipio i mewn] | |

8. **Sawl diwrnod ydych chi wedi mynychu cyn heddiw?** (Dewiswch un ateb)

9. **Pwy benderfynodd y dylech chi gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yr haf yma?** (Dewiswch un ateb)

| | | |
|---|---|---|
|  Fi |  Fy rhiant/gofalwr |  Fy ffrind/ffrindiau |
|  Perthynas neu ffrind sy'n oedolyn |  Fy athro/athrawes |  Fy narparwr gofal plant |
|  Fy ngweithiwr cymdeithasol | | |

10. **Sut wnaethoch chi/nhw gael gwybod am y gweithgareddau haf hyn?** (Dewiswch gynifer o atebion ag sydd angen)

| | | |
|---|---|---|
|  Cyfryngau cymdeithasol |  Clywed gan eraill (gan deulu neu ffrindiau) |  Poster/baner yn fy ardal i |
|  Gwefan fy awdurdod lleol |  Darparwr gofal plant/ysgol |  Coleg/prifysgol [16+] |
| Arall [Opsiwn teipio i mewn] | Ddim yn gwybod | |

11. **Pam oeddech chi/nhw'n meddwl y dylech chi gymryd rhan yn y gweithgareddau?** (Dewiswch gynifer o atebion ag sydd angen)

| | | |
|---|---|---|
| Cael hwyl | Chwarae/cymdeithasu gyda phlant eraill | Dysgu rhywbeth newydd |
| Gwneud rhywbeth creadigol (fel chwarae, celf a chrefft) | Gwneud rhywbeth egnïol (fel dawns neu chwaraeon) | Cael cyfle i siarad Cymraeg |

12. **Sut wnaethoch chi deithio i'r gweithgareddau?** (Dewiswch gynifer o atebion ag sydd angen)

| | | |
|---|---|---|
| Cludiant y darparwr | Cludiant cyhoeddus (fel bws neu drên) | Cefais lifft gan rywun |
| Cerdded | Mynd ar feic | Gyrrais fy hun [18+ oed] |

13. **A oedd cost eich teithio wedi'i thalu gan y gweithgaredd haf neu glwb?** [gofynnwch ddim ond os yw C12= cludiant cyhoeddus]

| | |
|---|---|
| Oedd | ☐ |
| Nac oedd | ☐ |
| Ddim yn gwybod | ☐ |

14. **Faint ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y gweithgareddau wedi eich helpu i...?** (Dewiswch un ateb ym mhob rhes)

| | Cytuno llawer | Cytuno ychydig | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno ychydig | Anghytuno llawer | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dreulio mwy o amser allan o'r tŷ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dysgu rhywbeth newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gwneud ffrindiau newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rhoi cynnig ar bethau newydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bod yn fwy egnïol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cael hwyl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rheoli fy iechyd meddwl [12+] | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

15. **Os nad oedd y gweithgaredd / clwb hwn ar gael yr haf hwn, beth fyddech chi'n ei wneud yn lle hynny? [dan 18 oed yn unig]** (Dewiswch gynifer o atebion ag sydd angen)

Byddwn gartref ar fy mhen fy hun ◻
Mewn gofal plant / clwb gwyliau y telir amdano ◻
Byddai fy rhieni'n gofalu amdanaf ◻
Byddai fy mrawd/chwaer yn gofalu amdanaf ◻
Byddai perthynas neu ffrind sy'n oedolyn yn gofalu amdanaf ◻

16. **Sut ydych chi'n treulio eich amser fel arfer? Ydych chi ar hyn o bryd... [18+ yn unig]** (Dewiswch gynifer o atebion ag sydd angen)

Yn y coleg ◻
Yn y brifysgol ◻
Mewn gwaith â thâl ◻
Yn gwneud hyfforddeiaeth neu brofiad gwaith ◻
Yn gwirfoddoli ◻
Dim un o'r uchod ◻

17. **Ac yn olaf, beth yw eich grŵp ethnig?** (Dewiswch un ateb)

**Gwyn**

Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Prydeinig neu o Ogledd Iwerddon ◻
Gwyddelig ◻
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig ◻
Unrhyw gefndir Gwyn arall ◻

**Grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog**

Gwyn a Du Caribïaidd ◻
Gwyn a Du Affricanaidd ◻

Gwyn ac Asiaidd ◻
**Unrhyw gefndir ethnig Gymysg neu Luosog arall**

**Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig**

Indiaidd ◻
Pacistanaidd ◻
Bangladeshaidd ◻
Tsieineaidd ◻
**Unrhyw gefndir Asiaidd arall**

**Du, Affricanaidd, Caribïaidd neu Ddu Prydeinig**

Affricanaidd ◻
Caribïaidd ◻
Unrhyw gefndir Du, Affricanaidd neu Garibïaidd arall ◻

**Grŵp ethnig arall**

Arabaidd ◻
Unrhyw grŵp ethnig arall ◻

Mae'n well gennyf beidio ag ateb ◻

**Yr arolwg i ddarparwyr**

1. **Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad sy'n ddarparwr neu leoliad?**
    - Darparwr
    - Lleoliad
2. **Beth yw enw eich sefydliad?**
3. **Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich sefydliad orau?**
    - Sefydliad gwirfoddol neu gymunedol
    - Awdurdod lleol
    - Sefydliad preifat
    - Eglwys neu grŵp ffydd
    - Ysgol
    - Arall (nodwch beth)
4. **[C1=Darparwr] A yw eich darpariaeth Haf o Hwyl yn cael ei chynnig ar draws yr holl ALlau yng Nghymru?**
   Ydy, ar draws pob un o'r 22 ALl
   Nac ydy, ALlau penodol yn unig
5. **[Os C4=Na] Ym mha ardal(oedd) Awdurdod Lleol y mae eich darpariaeth Haf o Hwyl yn cael ei chyflwyno?** (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)
6. **[Gofyn i bawb] Pa gyfrwng sy'n cael ei ddefnyddio yn eich darpariaeth Haf o Hwyl?**
    - Cyfrwng Cymraeg
    - Cyfrwng Cymraeg a Chyfrwng Saesneg
    - Cyfrwng Saesneg gydag elfen ddwyieithog
    - Cyfrwng Saesneg
    - Arall (nodwch beth)
7. **Beth yw'r <u>oedran ieuengaf</u> pan all plant a phobl ifanc fynychu eich darpariaeth Haf o Hwyl?**
   (dewis 0-25, ddim yn gwybod)
8. **Beth <u>yw'r oedran hynaf</u> pan all plant a phobl ifanc fynychu eich darpariaeth Haf o Hwyl?**
   (dewis 0-25, ddim yn gwybod)
9. **Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r staff sy'n rhedeg y ddarpariaeth Haf o Hwyl i blant a phobl ifanc?**
    - Staff â thâl yn unig

- Gwirfoddolwyr yn unig
- Staff â thâl a gwirfoddolwyr
- Ddim yn gwybod

**10. Beth yw'r nifer uchaf o blant a phobl ifanc a all fynychu eich gweithgareddau Haf o Hwyl ar yr un pryd, fesul grŵp oedran?**

| | Nifer uchaf o bobl fesul gweithgaredd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Llai na 30 | 31-50 | 51-100 | 100+ | Ddim yn berthnasol |
| 0 – 4 oed | | | | | |
| 5 - 11 oed | | | | | |
| 12 – 15 oed | | | | | |
| 16+ oed | | | | | |

**11. Pa fath(au) o weithgareddau Haf o Hwyl ydych chi'n eu cynnig?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Gwaith chwarae mynediad agored
- Darpariaeth gwyliau y tu allan i oriau ysgol - lleoedd gofal plant
- Gofal plant
- Darpariaeth blynyddoedd cynnar
- Gweithgareddau/profiadau diwylliannol
- Darpariaeth ieuenctid
- Darpariaeth chwaraeon
- Celf a chrefft
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Dechrau'n Deg
- Arall (nodwch beth)

**12. Ble mae eich gweithgareddau Haf o Hwyl yn cael eu darparu?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Gofod agored / parc
- Coedwig
- Gofod cymunedol
- Cyfleuster chwaraeon
- Canolfan hamdden
- Amgueddfa, archif, llyfrgell
- Ysgol
- Ar-lein / o bell

- Arall (nodwch beth)

13. **Ydy eich Haf o Hwyl yn cynnwys cludiant i helpu plant a phobl ifanc i fynychu?**
    - Ydy, rydym yn darparu ein cludiant ein hunain
    - Ydy, yr ydym yn talu costau cludiant cyhoeddus
    - Ydy, yr ydym yn darparu ein cludiant ein hunain ac yn talu costau cludiant cyhoeddus
    - Nac ydy

14. **Beth oedd eich prif resymau dros wneud cais am gyllid Haf o Hwyl 2021?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    - Cyflwyno darpariaeth newydd
    - Ymestyn hyd y ddarpariaeth bresennol
    - Ehangu'r amrywiaeth o weithgareddau a gynigir
    - Hurio mwy o staff
    - Cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc a gyrhaeddir gan y ddarpariaeth bresennol
    - Datblygu rhaglenni cydweithredol gyda lleoliadau/darpariaeth eraill
    - Dod o hyd i gymorth i ddarparu gweithgareddau gwyliau'r haf
    - Arall (nodwch beth)

15. **A all eich darpariaeth gynnig lleoedd i'r holl blant a phobl ifanc a hoffai fynychu?**
    - Gall, ac mae gennym leoedd ychwanegol ar gael
    - Na all, mae gennym ddigon o le i bawb fynychu cynifer o sesiynau ag y mynnant ond does dim mannau ychwanegol ar gael
    - Gall, mae gennym le i bawb ond ni allwn gynnig cynifer o sesiynau i bawb ag yr hoffent eu cael
    - Na all, mae'n rhaid i ni droi rhai plant a phobl ifanc i ffwrdd

16. [Os 15=Na] **Beth yw'r rhesymau nad oedd modd i chi gynnig lleoedd i bob plentyn a pherson ifanc?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    - Mae'r archebion yn llawn
    - Ni allwn ddiwallu eu hanghenion yn llawn, e.e., anghenion iaith neu anghenion iechyd
    - Arall (Nodwch beth]

17. **A yw eich darpariaeth Haf o Hwyl yn targedu unrhyw un o'r grwpiau canlynol sydd wedi cael eu heffeithio'n fwy negyddol gan Covid-19?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    - Plant 0-7 oed nad ydynt yn cyrraedd cerrig milltir datblygiad allweddol

- Y rhai yr effeithiwyd arnynt fwyaf gan yr amhariad ar ddysgu
- Plant a phobl ifanc a fyddai'n elwa o weithgareddau i gefnogi eu hyder i gymryd rhan mewn cymdeithas ehangach
- Plant a phobl ifanc sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg ac a fyddai'n elwa o barhau â'u sgiliau iaith trwy gydol yr haf
- Plant a phobl ifanc y mae angen iddynt gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol

18. **A yw unrhyw elfennau o'ch darpariaeth Haf o Hwyl yn targedu unrhyw un o'r grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc yn benodol?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    - Gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol/Anghenion Addysgol Arbennig neu Anableddau
    - Wedi'u haddysgu y tu allan i'r system ysgolion reolaidd
    - Heb frodyr a chwiorydd
    - Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
    - Derbyn gofal neu wedi'u mabwysiadu
    - Ffoaduriaid a cheiswyr lloches
    - Gofalwyr ifainc
    - Heb fod yn gysylltiedig yn ddigidol
    - O deuluoedd incwm isel neu'n byw mewn tlodi
    - Wedi dioddef trawma neu brofedigaeth o ganlyniad i Covid-19
    - Wedi profi cam-drin/trais domestig
    - Dim un o'r uchod

19. **Beth anogodd blant a phobl ifanc i fynychu eich darpariaeth Haf o Hwyl?** Ystyriwch unrhyw ffactorau a allai fod yn berthnasol yn eich barn chi, gan gynnwys marchnata a dulliau atgyfeirio (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    - Am rywbeth i'w wneud / osgoi diflastod
    - Dewis y rhiant/gofalwr
    - Dylanwad cyfoedion
    - Ymgyrch farchnata leol
    - Darpariaeth cludiant
    - Bod gyda phobl ifanc eraill
    - Cael y cyfle i wneud ymarfer corff/bod yn egnïol
    - Rhoi cynnig ar rywbeth newydd/gwahanol
    - Cefnogi eu dysgu
    - Arall [nodwch beth]

20. **Pa ffactorau, os o gwbl, ydych chi'n meddwl sy'n rhwystrau i bresenoldeb plant a phobl ifanc yn eich darpariaeth yr haf yma?** Ystyriwch unrhyw ffactorau a allai fod yn berthnasol yn eich barn chi, gan gynnwys marchnata a dulliau atgyfeirio
    - Nid oedd y gweithgareddau'n apelio at blant/pobl ifanc
    - Dewis y rhiant/gofalwr
    - Dylanwad cyfoedion
    - Ymgyrch farchnata leol
    - Anawsterau o ran cludiant
    - Problemau hygyrchedd gyda'r lleoliad
    - Cysylltiedig â Covid-19: hunanynysu, pryderon iechyd, diffyg profion llif unffordd, masgiau etc.
    - Arall [nodwch beth]

21. **Beth yw'r deilliannau allweddol i'r plant a'r bobl ifanc sy'n mynychu eich darpariaeth Haf o Hwyl?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    - Datblygu sgiliau penodol (e.e., artistig, cerddorol, chwaraeon)
    - Gwneud iddyn nhw deimlo'n fwy cysylltiedig yn gymdeithasol
    - Cynnal eu hiechyd corfforol
    - Gwella eu hiechyd corfforol
    - Cynnal eu hiechyd meddwl a'u lles
    - Gwella eu hiechyd meddwl a'u lles
    - Gwella'u parodrwydd i fynd i'r ysgol
    - Gwella sgiliau Cymraeg
    - Cefnogi ymadfer yn sgil COVID-19
    - Eu hysgogi i ymgymryd â diddordebau/hobïau newydd ar ôl yr Haf o Hwyl
    - Eu hysgogi i barhau â gweithgarwch corfforol rheolaidd ar ôl yr Haf o Hwyl
    - Arall (nodwch beth)

22. **Pa rai o'r wybodaeth, hyfforddiant ac arweiniad canlynol <u>a gynigiwyd</u> ac a dderbyniwyd gan eich Awdurdod Lleol fel rhan o'r cyllid Haf o Hwyl?** (dewiswch bob un sy'n berthnasol)
    Defnyddiwch y blwch 'Rhowch opsiwn arall' i nodi opsiynau gwybodaeth, hyfforddiant ac arweiniad eraill.

| | Wedi'u cynnig gan yr ALI | Wedi'u derbyn gan y ddarpariaeth |
|---|---|---|
| Hyfforddiant diogelu | | |
| Hyfforddiant iechyd a diogelwch | | |
| Hyfforddiant cymorth cyntaf | | |
| Hyfforddiant cynhwysiad/hygyrchedd | | |
| Cymorth i ddatblygu polisïau perthnasol (diogelu, iechyd a diogelwch, hylendid bwyd, cynhwysiad/hygyrchedd, yswiriant ac ati) | | |
| Canllawiau Prif Swyddog Meddygol y DU ar gyfer Gweithgarwch Corfforol (a ffeithlun cysylltiedig) | | |
| Arall (nodwch beth) | | |

**23. Pa mor ddefnyddiol oedd yr wybodaeth, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth a gawsoch?**

- Defnyddiol iawn
- Eithaf defnyddiol
- Ddim yn ddefnyddiol iawn
- Ddim yn ddefnyddiol o gwbl
- Ddim yn gwybod
- Heb dderbyn unrhyw gymorth

**24. Yn gyffredinol, pa mor fodlon oeddech chi gyda'r gefnogaeth a gawsoch gan eich Awdurdod Lleol?**

- Bodlon iawn
- Eithaf bodlon
- Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
- Eithaf anfodlon
- Anfodlon iawn
- Heb dderbyn unrhyw gymorth

**25. Ydych chi'n mynd i redeg darpariaeth debyg yn haf 2022?**

- Ydym, yn bendant
- Ydym, os bydd cyllid ar gael
- Nac ydym, yn bendant ddim beth bynnag fo'r cyllid
- Ddim yn gwybod

**26. Ydych chi'n meddwl bod gan y plant a'r bobl ifanc rydych chi'n gweithio gyda nhw ddigon o gefnogaeth i ymadfer yn sgil COVID-19?**

Ydw

Nac ydw

**27. A fyddech yn fodlon ateb unrhyw gwestiynau pellach i gefnogi'r gwerthusiad hwn?**